



**Dinas a Sir Abertawe**

**Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb  
2016/17  
(Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis  
Mawrth 2017)**

## **Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb**

### **1. Cyflwyniad**

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2016-17. Dyma'n chweched adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Adolygiad cynnydd cyntaf ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

### **2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o gynnydd yn ystod mis Ebrill - Mai 2017 a darparodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Mae'r holl wybodaeth hon i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016 – 2020 a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Mawrth 2016 ac sydd ar gael yn [www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol](http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol) mewn fersiynau llawn, cryno a hawdd eu darllen.

### **3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb**

Mae'r broses o ddadansoddi gwybodaeth am gydraddoldeb wedi cael ei chynnal a'i datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys ar we-dudalennau 'Ystadegau' y cyngor. Mae hyn yn cynnwys data a dadansoddiad cymdeithasol-ddemograffig lleol ychwanegol o gyfrifiad 2011 a ffynonellau swyddogol eraill.

Mae amrywiaeth o ddulliau dadansoddi, sy'n rhannol gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig, wedi cael ei gynnwys yn Asesiad o Les Lleol 2017 gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae fersiynau newydd o'n proffiliau ardal, gan gynnwys data/gwybodaeth wedi'i diweddarau lle mae ar gael, wedi cael eu cwblhau ar gyfer wardiau ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, gydag adolygiad o gynnwys proffiliau yn yr arfaeth.

Erbyn hyn, cynhelir dadansoddiad o bobl â nodweddion gwarchoddedig yn rheolaidd fel rhan o'r gofyniad monitro cydlyniant cymunedol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.

Cynhaliwyd trydydd Uwch-arolwg Plant a Phobl Ifanc yn nhyrnor haf 2016 i geisio barn pobl ifanc am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn ogystal â'r arolwg cyffredinol, gwnaethom ddatblygu arolwg atodol sy'n diwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn casglu barn cynifer o blant a phobl ifanc â phosib.

Cyfrannodd tair ysgol uwchradd ar ddeg a chasglwyd barn 3,688 o bobl ifanc. Bydd yr wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg yn bwydo i mewn i'r broses o gynllunio gwasanaethau ac yn ein helpu i ddangos y gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd yr Uwch-arolwg PPhl yn parhau i gael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn a chaiff canlyniadau'r arolwg eu cymharu â'r rhai o'r flwyddyn flaenorol er mwyn mesur cynnydd.

#### **4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**

Gweler Atodiad 2 am yr wybodaeth hon.

#### **5. Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ystod 2016-17.

##### 5.1 Pwyllgor Cynghori'r Cabinet (PCC) ar Wasanaethau Corfforaethol

Cylch gwaith PCC (sy'n cynnwys cynghorwyr) yw cynorthwyo'r Aelod Cabinet perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r ymrwymadau polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor.

Sefydlwyd PCC ar Wasanaethau Corfforaethol ym mis Medi 2015. Mae PCC Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol hefyd yn ystyried materion cydraddoldeb.

Roedd cyfarfodydd PCC trwy gydol 2016-17 yn cynnwys trafod a gweithio ar y materion perthnasol canlynol:

- Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg
- Prosiect bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Cyswllt cwsmeriaid
- Mannau di-fwg
- Adolygiadau comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gofalwyr
- Ymchwiliadau i iechyd a deiet
- Gwneud hawliau dynol yn berthnasol i bobl hŷn
- Asesiad poblogaeth

Am fwy o wybodaeth ac i weld cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor, ewch i <http://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=0?Lang=cy>.

##### 5.2 Cynghorwyr Hyrwyddo

Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo'n gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin domestig.

Mae'r Cyngorwyr Hyrwyddo'n rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i'r un unigolyn neu bwyllgor.

Maent yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau a phenderfyniadau'r cyngor.

Am fwy o fanylion, ewch i

<http://democracy.swansea.gov.uk/mgListOtherPosts.aspx?bcr=246&LLL=0>

### 5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC estynedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofawyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Fel bob amser, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AEC yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Mae ein proses cynllunio gwasanaethau hefyd yn cynnwys arweiniad ac offer AEC.

Mae pob adroddiad AEC wedi'i gwblhau yn parhau i gael ei gyhoeddi yn [www.abertawe.gov.uk/aec](http://www.abertawe.gov.uk/aec) ynghyd ag adroddiadau corfforaethol perthnasol yn <https://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=0?Lang=cy>. Mae cyllideb y cyngor hefyd yn destun y broses AEC.

### 5.4 Ymgynghori a Chynnwys

Mae gwybodaeth am ein dulliau a'n trefniadau ymgynghori a chynnwys ar gael yn <http://www.abertawe.gov.uk/lleisiwcheichbarn>. Rhoddir diweddariad ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 11.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

#### ➤ Fforwm LGBT

Dechreuodd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 ac mae'n cael ei gynnal gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff neu wirfoddolwyr sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli buddion dinasyddion LGBT.

Mae aelodau'r fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau megis Swansea Sparkle, Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia (IDAHOT), Mis Hanes LGBT, Balchder Abertawe a Diwrnod Deu-weledd.

Yn 2016, cynhaliwyd seminar partneriaeth gennym ar y cyd â Swansea Sparkle (ynghyd â Tawe Butterflies a Heddlu De Cymru), gyda'r pwyslais ar faterion trawsrywiol ac ymwybyddiaeth o'r pwnc. Fe'i cynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas y diwrnod cyn y digwyddiad yn Amgueddfa'r Glannau ac roedd yr ymateb iddo'n dda iawn gyda llawer o adborth cadarnhaol gan y rhai a fu yno a'r siaradwyr.

Yn ogystal, mae'r fforwm wedi addasu ei gylch gorchwyl, pennu blaenoriaethau ar gyfer 2017-18 a diwygio ei drefniadau cyfarfodydd.

#### ➤ Fforwm BME

Bu'r fforwm hwn yn destun adolygiad yn 2016-17 oherwydd gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr y flwyddyn flaenorol. Cynhelir cyfarfodydd â sefydliadau aelod allweddol i gael adborth am eu barn ar ddyfodol y fforwm. Yna cafodd yr adborth ei drafod mewn cyfarfod partneriaeth ag aelodau o fforwm sefydliadau'r sector cyhoeddus – cynhaliwyd hwn ym mis Tachwedd 2016.

Yn ystod yr holl drafodaethau hyn, cafwyd bod dau grŵp yn gweithredu bron ar yr un pryd – y Fforwm BME a Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (a gydlynir gan y cydlynedd Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol). Felly, cyfunwyd y ddau grŵp yn un rhestr ddsbarthu er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol (mae gwybodaeth yn cael ei darparu trwy e-bost yn rheolaidd o hyd). Yna trodd ein sylw at ein digwyddiad Our Abertawe, a gynhaliwyd ar 4 Mawrth. Rydym bellach yn ystyried y posibilrwydd o fforwm BME rhanbarthol a bydd trafodaethau ynglŷn â hyn yn dechrau ym mis Mehefin.

#### ➤ Grŵp Cydgysylltu Anabledau

Mae'r Grŵp Cydgysylltu Anabledau'n caniatáu am ddeialog ddwyffordd rhwng y cyngor a phobl anabl a/neu eu sefydliadau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o Fforwm Anabled Abertawe a wirfoddolodd i gymryd rhan (yn ogystal â swyddogion o wasanaethau'r cyngor, y bwrdd iechyd lleol a Heddlu De Cymru).

Yn ystod 2016-17, cyfarfu'r grŵp hwn saith gwaith. Mae'n bwysig nodi bod y grŵp yn pennu'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn ar y cyd â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau ac mae nifer y ceisiadau am gyfarfodydd (gan aelodau'r grŵp a gwahanol adrannau'r cyngor) yn parhau i gynyddu.

Mae cyfarfodydd wedi cynnwys gwybodaeth a thrafodaethau am y canlynol:

- Adolygiadau comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Materion priffyrdd a chludiant
- Prosiectau datblygu presennol, gan gynnwys Ffordd y Brenin a Sgwâr y Castell
- Materion gwastraff ac ailgylchu
- Cwynion corfforaethol
- Hygyrchedd ymgynghoriadau

## 5.5 Cydgynhyrchu

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol eleni:

- Sefydlu Swydd Datblygu Cydgynhyrchu, yn y trydydd sector. Nod y swydd hon yw hyrwyddo ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chefnogaeth o ran arferion cydgynhyrchu a chydgyngyrchiol yn y cyngor a'r trydydd sector
- Datblygu rhwydwaith cydgynhyrchu ar gyfer gofal oedolion yn Abertawe – mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac yn cael ei gydgyngyrchu, gan adeiladu ar Grŵp Gweithredu Cydgynhyrchu.
- Mae datblygu trefniadau comisiynu cydgynhyrchu ar draws gofal cymdeithasol i oedolion (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalywyr sy'n rhieni – a sefydlwyd yn y gwasanaethau iechyd meddwl, anabledd dysgu ac anabledd corfforol/nam synhwyrdd). Mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn y gwasanaethau pobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd gytunedig at gomisiynu ar y cyd a'r strwythurau i gynnal hynny (gan gynnwys y Grŵp Dim Byd Amdanom Hebom i bobl ag anabledd dysgu)
- Llunio strategaethau comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, iechyd meddwl ac anabledd corfforol/nam synhwyrdd; gan gynnwys canlyniadau wedi'u cyflawni ar y cyd a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol
- Llunio cyfres o ganlyniadau ac egwyddorion ar y cyd sy'n cyfeirio datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Datblygu'r broses gaffael i gefnogi ymagweddau ar y cyd mewn gwasanaethau anabledd dysgu. Mae pobl ag anabledd dysgu wedi cymryd cyfrifoldeb a rheolaeth uniongyrchol dros 10% o'r broses gaffael. Maent wedi datblygu (gyda'u grŵp rhanddeiliaid ehangach) dau gwestiwn i ddarparu'r sy'n gwneud ceisiadau i fod yn rhan o'n Fframwaith Byw â Chymorth newydd. Bydd y Grŵp Dim Byd Amdanom Hebom yn gyfrifol am werthuso a marcio'r ceisiadau hynny.

## 5.6 Troseddau Casineb

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe gyda phartneriaid allweddol (i gyd-fynd â 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru). Mae gan ein cynllun 3 amcan strategol:

- Atal troseddau casineb
- Cynyddu adrodd a mynediad i gefnogi dioddefwyr
- Gwella'r ymateb amlasiantaeth i droseddau casineb

Mae'n ddogfen ddeinamig ac yn cael ei chynnal gan y grŵp cynllunio amlasiantaeth sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Er mwyn cynyddu nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi cael ei ddarparu gan Gymorth i Ddioddefwyr a Chyngor Abertawe i asiantaethau partner a staff y cyngor. Cafodd digwyddiad 'hyfforddi'r hyfforddwr' ei ddatblygu hefyd gan y cyngor a Chymorth i Ddioddefwyr a'i gyflwyno i staff a phartneriaid.

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo Cymorth i Ddiodefswyr, sef y Ganolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd Troseddau Casineb swyddogol ar gyfer Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i <http://www.reporthate.victimsupport.org.uk/>

### 5.7 Cydlyniant Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol am flwyddyn arall (2017-18). Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar 4 amcan:

- Gweithio'n strategol i chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio ar draws grwpiau ymylol
- Gweithio'n lleol i chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio ar gyfer grwpiau a chymunedau penodol
- Cefnogi ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau sy'n eu cynnal yn ystod y broses integreiddio
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tyndra ac eithafiaeth

Y gobaith yw y bydd yr ymagwedd newydd hon gan Lywodraeth Cymru'n galluogi pob cyngor i nodi blaenoriaethau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r cynllun cyflwyno newydd erbyn diwedd mis Mai 2017. Mae ein grŵp arweinyddiaeth yn Abertawe'n parhau i sicrhau cynnydd a monitro.

### 5.8 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn nodi'r trefniadau sydd gan Ddinas a Sir Abertawe i sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol.

Mae cynllun gweithredu CCUHP wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir, ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at hawliau plant. Mae chwe maes allweddol sy'n canolbwyntio ar:

1. Wneud trefniadau yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, fel sy'n ofynnol dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
2. Datblygu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono trwy hyfforddiant i'r holl staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Ninas a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaid statudol a gwirfoddol allweddol eraill.
3. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono.
4. Sicrhau bod dulliau priodol a chadarn ar waith i dderbyn adborth a chwynion o ran CCUHP.
5. Sicrhau cydymffurfio â dyletswydd sylw priodol CCUHP, ei atebolrwydd a'i effaith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
6. Cafodd yr ail adroddiad cynnydd ar y ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol ei lunio ym mis

Medi 2016 ac mae'n cyfeirio amcanion yn y cynllun gweithredu blynyddol.

Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori'n llwyr yn ein proses AEC a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bu'n ofynnol i bob maes gwasanaeth bennu o leiaf dri amcan CCUHP, gyda ffocws ar:

1. Hyfforddiant a gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP;
2. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono ym mhob maes gwasanaeth trwy wneud y cysylltiad pendant â'r erthyglau perthnasol a defnyddio "Dilly" (y logo hawliau plant ar gyfer Abertawe).
3. Cydymffurfio â'r broses AEC.

### 5.9 Addysg ac Ysgolion

Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2016-2017 ac mae arian ar gael i barhau â gweithdai yn ein hysgolion yn 2017-2018. Eleni, mae 49 o weithdai wedi cael eu cynnal yn 17 o ysgolion Abertawe, gan gysylltu â mwy na 1200 o bobl ifanc. Roedd y sesiynau'n ystyried amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hiliaeth, ystrydebu, terminoleg a dylanwad y cyfryngau.

*“Roedd gan arweinydd y gweithdy ffordd ardderchog o siarad â'r plant a rhyngweithio â nhw.”*

Roedd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth hefyd yn hyrwyddo'r gystadleuaeth ysgolion flynyddol sy'n cynnig gwobrau am waith celf, ysgrifennu creadigol a cheisiadau dylunio dillad. Eleni, enillwyd pum gwobr gan ddisgyblion o ysgolion Abertawe, gan gynnwys enillydd cyffredinol y gystadleuaeth.

Mae offeryn wedi'i ddatblygu a'i lansio er mwyn i ysgolion gofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Fe'i lansiwyd yn nhymor yr hydref, ond mae nifer yr ysgolion sy'n ei ddefnyddio yn isel ac mae mwy o waith nawr yn yr arfaeth i ddatblygu'r offeryn ymhellach a hyrwyddo ei ddefnydd a'i werth i ysgolion.

Roedd ein partner gwella ysgolion rhanbarthol, ERW, yn parhau i weithio gyda Stonewall i ddarparu digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr i ysgolion sy'n rhoi'r offer, y technegau a'r hyder angenrheidiol i gyfranogwyr hyfforddi staff eraill yn yr ysgol i fynd i'r afael â bwlio homoffobig ac ystrydebau rhywedd ac i ddathlu gwahaniaeth. Mae hyn hefyd yn rhoi aelodaeth Ysgol Hyrwyddo Stonewall i'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae'r arian am hyn bellach wedi dod i ben ac rydym wrthi'n ystyried sut rydym yn cefnogi'r agwedd hon ar waith yn y dyfodol.

### 5.10 Gwaith gyda Phobl Hŷn

➤ Cynllun Heneiddio'n Dda

Adolygwyd Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2015-2019 y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Bwrdd Dinas Iach ym mis



Gorffennaf 2016 a chytunwyd ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod mewn gweithdy amlasiantaeth, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Rwydwaith 50+ Abertawe. Mae'r Rhwydwaith 50+ wedi bod yn rhan o'r holl drafodaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac wrth gynllunio ar gyfer prosiectau penodol.

➤ Digwyddiadau

Cynhaliwyd digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU ar 4 Hydref yn Stiwdio Theatr y Grand a dyma giplun ar yr adborth a gafwyd:

- Dros 200 o bobl yn bresennol
- Adloniant iwcailili bywiog
- Dros 40 o arddangoswyr
- 25 o flancedi trydan/gwiriadau diogelwch
- "Braf gweld cludydd y Ffagl Olympaidd"
- Llauer o ddiddordeb mewn nofio am ddim
- Cafodd 60+ o bobl wiriad meddyginiaeth/pwysau gwaed
- 3 gwirfoddolwr posib ar gyfer y Groes Goch Brydeinig
- "Gallu targedu grŵp anodd ei gyrraedd"- Heddlu De Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol gyda Rhwydwaith 50+ Abertawe ar 2 Tachwedd 2016. Cyflwynwyd Polly Gordon (arweinydd newydd ar gyfer Heneiddio'n Dda) a rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Trwy waith grŵp, amlygwyd yr hyn a oedd yn well gan aelodau o ran gweithgareddau'r rhwydwaith:

- Fforymau 50+ ar themâu e.e. cludiant/iechyd
- Prosiectau Rhyng-genedlaethol
- Digwyddiadau arddangos 50+ mawr.

Cynhaliwyd digwyddiad heneiddio'n dda gyda fformat tebyg i'r digwyddiad ar Ddiwrnod Pobl Hŷn y DU ond gyda mwy o ffocws ar gynnwys ac ymgynghori â dinasyddion.

➤ Gwe-dudalennau 50+

Mae gwe-dudalennau 50+ newydd wedi cael eu datblygu gydag aelodau Rhwydwaith 50+: <http://www.abertawe.gov.uk/50plus>

#### 5.11 Cyflwyniad - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r cyngor:

*"weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".*

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ystyried effeithiau ar 'y rhai heb eu geni' wrth wneud penderfyniadau ar draws pob gwasanaeth. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu mor llawn â phosib

at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a'i phreswylwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mabwysiadodd Polisi Datblygu Cynaliadwy Abertawe yr egwyddor ganolog hon yn 2012. Mae pob adran yn ystyried (i radd gynyddol) yr effaith tymor hir ar genedlaethau'r dyfodol wrth ddylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Rydym yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wnawn; mae hyn yn cynnwys ystyried y tymor hir. Ym mis Ebrill 2016, sefydlwyd Bwrdd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn darparu llywodraethu effeithiol ar lefel weithredol ar gyfer yr holl newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol.

### 5.12 Tlodi

Mae trechu tlodi'n flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o'r pum amcan allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Abertawe; ysgrifennwyd y strategaeth gyntaf i ymdrin â hyn yn 2014. Ystyrir bod y Strategaeth Trechu Tlodi'n ddogfen ddeinamig ac yn 2016 cynhaliwyd Asesiad o Effaith Integredig, yn rhan gyntaf adolygiad llawer ehangach o'r strategaeth hon, gyda'r data'n cael ei gynnwys yn y broses graffu. Cafodd prif themâu ac argymhellion y broses hon eu cynnwys yn y Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig ddrafft a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2017. Yna caiff adborth yr ymgynghoriad ei ystyried a chaiff drafft terfynol o'r strategaeth ddiwygiedig ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn adeiladu ar dair thema strategaeth 2014:

- Grymuso pobl leol
- Newid diwylliannau
- Targedu adnoddau.

Yn ogystal, mae'n ofyniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), fel y grŵp partneriaeth trosgynnol yn Abertawe, i lunio Cynllun Lles ac ar hyn o bryd mae'r ymagwedd yn canolbwyntio ar chwe Amcan Poblogaeth:

- Dechrau da mewn bywyd i blant
- Pobl yn dysgu'n llwyddiannus
- Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion
- Safon byw dda i bobl
- Pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol
- Lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt

Rydym wedi llunio ein strategaeth ddrafft a'n cynllun cyflwyno yn unol â'r amcanion hyn. Rhoddwyd ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r bwriad yw i'r strategaeth ddiwygiedig wneud cyfraniad cadarnhaol at nodau lles y ddeddf.

### 5.13 Diwygio Lles

Yn dilyn gwaith blaenorol i leihau effaith negyddol diwygio lles, mae'r gweithgarwch presennol wedi cynnwys y canlynol:

Tynnodd y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol sylw at yr angen i nodi'r bobl hynny a oedd yn dioddef fwyaf o nifer o ddiwygio lles er mwyn targedu gwaith yn y modd mwyaf effeithiol. Argymhellodd y grŵp y dylid comisiynu adroddiad

gan yr Adran Polisi ac Arfer am effeithiau cronol diwygio lles. Ers hynny rydym wedi comisiynu'r adroddiad hwn a gwneud sylwadau am y drafft, 'Effaith gronol diwygio lles yn Abertawe'. Bydd y sylwadau hyn yn cyfeirio'r adroddiad terfynol a galluogi targedu cefnogaeth yn fwy effeithiol i'r rhai sydd yn y perygl mwyaf.

Bydd y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol yn adolygu a diweddarau'r 'Cynllun Gweithredu Cyflwyno Cymorth Cynhwysol' i baratoi i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn ar gyfer hawliadau newydd ym mis Rhagfyr 2017.

O hyn ymlaen bydd rhaid i unrhyw un sy'n gwneud hawliad newydd am unrhyw un o'r chwe budd-dal sy'n cael eu disodli (Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymorth Incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant) hawlio Credyd Cynhwysol. Yn ogystal, bydd rhai hawlwr budd-dal yn symud yn awtomatig o fudd-daliadau etifeddol presennol i Gredyd Cynhwysol o fis Rhagfyr 2017 os ydynt yn nodi newid yn eu hamgylchiadau.

I baratoi ar gyfer y broses gyflwyno lawn, cynhaliodd y Tîm Hawliau Lles adolygiad bach o nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a symudwyd o Fudd-dal Analluogrwydd. Darganfu'r tîm fod 18 o'r 24 hawlwr wedi cael tandaliad o £59.00 yr wythnos ar gyfartaledd ac felly, roedd yr hawlwr hyn yn derbyn, ar gyfartaledd, ôl-ddyledion budd-dal gwerth £5,751.

Mae'r Tîm Hawliau Lles yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau sy'n canolbwyntio ar y prif fudd-daliadau lles i'n staff yn ogystal ag asiantaethau partner. Mae hyn yn sicrhau bod ein gweithlu (a staff mewn sefydliadau eraill) yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth ynglŷn â pholisi ac yn ymateb i ymgynghoriadau ar ddiwygio lles. Mae Llinell Gyngor Hawliau Lles yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol i staff rheng flaen.

#### 5.14 Cam-drin Domestig

Mae Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau trwy ymagwedd bartneriaeth aml-asiantaeth, gyda thros 6000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 18 mis cyntaf ers ei sefydlu. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar draws y continwwm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Mae cymorthfeydd ar gael ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyngor cyfreithiol, camddefnyddio sylweddau a chyngor ar ddyled. Caiff gwasanaethau'r Siop dan yr Unto eu monitro gan y Grŵp Partneriaeth sy'n ceisio darparu gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o anghenion gofal, o ataliaeth a brys i ôl-ofal, ac maent ar gael i bob aelod o'r gymuned. Mae gwaith yn cael ei ddechrau i ystyried rhoi cefnogaeth benodol ar waith ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a'r rhai o'r gymuned LGBT.

Mae gwaith strategol wedi cael ei atgyfnerthu trwy ddatblygu Grŵp Strategaeth Cam-drin Domestig sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Strategaeth Cam-drin Domestig Abertawe ac unrhyw ddeddfwriaeth berthynol arall. Caiff Strategaeth Trais yn erbyn Menywod,

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2017-22 newydd ar gyfer Abertawe ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn hon ar ôl ymgynghori â gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r gymuned. Bydd y strategaeth newydd hon yn rhoi ymrwymiad tymor hwy i'n nodau o sicrhau ataliaeth a diogelu, a bod y strategaeth yn cael ei chefnogi.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth a'r agenda ataliol yn parhau i fod yn ffocws. Cynhaliwyd Diwrnod y Rhuban Gwyn yn y Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig i dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â thrais dynion yn erbyn menywod a daeth aelodau'r cyhoedd a phlant ysgol i'r digwyddiad. Fe'i cefnogwyd gan chwaraewyr yr Elyrch a'r Gweilch yn ogystal â'r Arglwydd Faer, arweinydd y cyngor, yr heddlu, y gwasanaeth tân a gweithwyr proffesiynol eraill.

I atgyfnerthu ein hagenda ataliol rydym wedi sefydlu Canolfan Cam-drin Domestig, gyda thîm amlddisgyblaeth a ddatblygwyd i gynorthwyo a chefnogi teuluoedd gyda phlant cyn gynted â phosib. Mae'r tîm hwn yn defnyddio ymagwedd 'teulu cyfan' at sicrhau bod pawb yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt ar yr adeg iawn gan y person cywir.

#### 5.15 Fersiwn Hawdd ei Darllen

Y llynedd, cyhoeddodd ni ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad Llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod gwybodaeth mor hawdd cael mynediad iddi ag y bo modd.

#### 5.16 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)

O ganlyniad i'n haelodaeth partneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2016-2017 oedd:

1. Pwyleg
2. Rwmaneg
3. Arabeg
4. Ffrangeg
5. Mandarin.

#### 5.17 Y Gronfa Newid

Trwy'r Gronfa Newid ar gyfer 2016-17, cafodd 16 o sefydliadau mawr a bach eu cefnogi'n ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Dinas a Sir Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig, neu'n cynrychioli eu diddordebau.

#### 5.18 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT

Trefnwyd bod arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i

ddau sefydliad weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot. Darparwyd cyllideb i barhau â'r prosiect ar gyfer 2016-17 a bydd hon yn parhau i 2017-18.

## **6. Sylwadau cloi**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ein CHW. Gwnaed cynnydd yn erbyn yr holl Amcanion Cydraddoldeb ac mae swm yr wybodaeth ychwanegol mae'n rhaid i ni ei gyflwyno yn ogystal â'n Hamcanion Cydraddoldeb yn parhau i gynyddu, sy'n gadarnhaol iawn. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

## Atodiad 1

### Amcanion Cydraddoldeb – Y Cynnydd Diweddaraf

#### Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau cydraddoldeb mynediad i wasanaethau

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Datblygu trefniadau gyda'r Tîm Cwynion Corfforaethol i sicrhau dulliau hygyrch ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n codi o ran hawliau plant yn Abertawe (gan gynnwys cyfeirio at eiriolwyr a rhoi adborth)	2016	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Mae pob ymateb i ymholiadau a godwyd trwy'r blwch post CCUHP yn dilyn map Proses Safonol Abertawe am faterion sy'n ymwneud â DASA a'r "Ddyletswydd Sylw Dyladwy" a ddatblygwyd ac y cytunwyd arni.
Parhau i hwyluso'r Grŵp Mynediad i Chwarae a'r Grŵp Teuluoedd a Chwarae Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig	2019 – cyfrannu at yr Archwiliad Digonolrwydd Chwarae	<b>Ar waith:</b> Gwaith parhaus i ddatblygu'r Grŵp Mynediad i Chwarae gyda chyfraniadau ystyrlon at ganfyddiadau'r ADCh a datblygiad.  Parheir â'r llif gwaith Teuluoedd a Chwarae BME a gwaith partneriaeth.
Darparu amrywiaeth o wasanaethau trwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'u targedu at deuluoedd â phlant anabl.	Mawrth 2017	<b>Ar waith:</b> Parheir i ddarparu nifer o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf i deuluoedd y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt/y mae anabledd yn effeithio arnynt.  Mae'r rhain yn cynnwys eiriolaeth a chefnogaeth i deuluoedd, cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anabledau dysgu ac ymddygiad heriol a'u teuluoedd, cefnogaeth cyn ysgol i blant dan 4 oed y mae ganddynt anghenion dysgu datblygol neu ychwanegol, cefnogaeth i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd a nifer o

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>brosiectau cymunedol trwy'r Grantiau Anabledd Chwarae.</p> <p>Cafodd 1,165 o unigolion gefnogaeth trwy wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, ac roedd 88% yn credu eu bod wedi elwa o'r ymyriadau hyn.</p>
<b>Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid</b>		
Cyflwyno gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain newydd yn y Ganolfan Gyswllt	Ionawr 2017	<b>Ar waith:</b> Ceir rhestr o gyfieithwyr IAP (hyd at lefel 3) yn y dderbynfa y gellir galw arnynt pan fo angen
Cyflwyno gwasanaeth tecstio SMS i breswylwyr	Ionawr 2017	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Mae gwasanaeth ar waith gyda 1048 o negeseuon testun wedi'u derbyn rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017 (SMS: 07919 626434)
Darparu cefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid y Ganolfan Gyswllt trwy roi staff wrth y fynedfa i gynorthwyo pan fo angen	Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Mae 2 gerddwr llawr yn parhau i gael eu rhoi wrth y fynedfa bob dydd i gynorthwyo pob cwsmer ac osgoi ciwio diangen am wasanaethau.
<b>Tai a Diogelu'r Cyhoedd</b>		
Datblygu Strategaeth Rhenti. Bydd rhan o'r strategaeth hon yn sicrhau bod y broses adennill ôl-ddyledion yn hawdd ei deall ac yn ystyried anghenion y cwsmer, yn enwedig y rhai a all fod yn ddiameddiffyn.	2018	<b>Ar waith:</b> Mae rhaglen Diwygio Lles y llywodraeth yn parhau i ddatblygu gyda newidiadau sylweddol yn dod i rym dros y blynyddoedd nesaf. Oherwydd y newidiadau cyson o ran diwygio lles, penderfynwyd bod angen strategaeth fwy cyffredinol. Felly mae'n cael ei hadolygu a'i diweddarau a rhagwelir y bydd y strategaeth ar gael ar ffurf ddrafft cyn diwedd haf 2017.
Parhau â rhaglen archwiliadau mynediad cwsmeriaid y gwasanaethau tai a diogelu'r cyhoedd i sicrhau bod gwasanaethau'n	Cwblhau bob 2 flynedd, o 2017 ymlaen	<b>Ar waith:</b> Mae archwiliad 2017 wedi dechrau a chaiff canlyniadau eu dadansoddi cyn bo hir.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
hygyrch i bawb		
Ymgorffori'r holl faterion cydraddoldeb perthnasol yn y Strategaeth Tai Lleol (STLI) newydd.	2016	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Cafodd pob mater cydraddoldeb ei gynnwys mewn pennod benodol yn yr STLI. Cymeradwywyd y strategaeth gan y cyngor yn 2016 a bydd yn para tan 2020. Hefyd yn 2016, diweddarodd yr awdurdod ei Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr gan gyflwyno'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y canlyniadau hefyd i gyfeirio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yr awdurdod.
Cynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn enwedig o ran plant a phobl ifanc anabl	2016	<b>Ar waith:</b> Mae'r gwe-dudalennau perthnasol wedi cael eu newid i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi bod 'pob cais yn destun prawf modd ac eithrio yn achos plant anabl a phobl ifanc dan 19 oed sy'n ddibynnol'</li> <li>• ychwanegu dolen i 'Grantiau a Benthyciadau Tai' Aeth y Tîm Addasiadau Tai i ddigwyddiad yn Llyfrgell Ganolog Abertawe ynglŷn â 'Tai Hwyrach mewn Bywyd - Ymchwil a Gwybodaeth' ym mis Tachwedd 2016 i ddarparu gwybodaeth am addasiadau a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl</li> </ul>
Llunio strategaeth fel rhan o'r prosiect Mwy o Gartrefi ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai i ddarparu mwy o dai'r cyngor, a fydd yn helpu i ddiwallu anghenion cymuned amrywiol	2016	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Cyflwynwyd y strategaeth i'r cyngor llawn ym mis Tachweedd 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddo.
Darparu trefniadau claddu/amlogi yn unol â gofynion cymuned amrywiol Abertawe	Yn cael ei fonitro'n fisol	<b>Ar waith:</b> Caiff anghenion cymuned amrywiol Abertawe eu parchu a'u diwallu
Datblygu protocol ar gyfer archwilio	2016	<b>Wedi'i gwblhau:</b>



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
anheddu y cynigir eu defnyddio fel llety i geiswyr lloches		Mae protocol yn ei le ac mae'n cael ei ddilyn
<b>Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd</b>		
Parhau i adolygu gorsafoedd pleidleisio, gan geisio'u gwella i sicrhau profiad cadarnhaol i'r pleidleisiwr	Etholiadau: Mai 2016 a Mai 2017	<b>Ar waith:</b> Gofynnir i swyddogion llywyddu roi adborth am unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn gorsaf bleidleisio. Defnyddir yr wybodaeth hon i adolygu eu lleoliad a'u haddasrwydd. Rydym bob amser yn chwilio am leoliad amgen gwell er mwyn gwella mynediad.
<b>Gwasanaethau Diwylliannol</b>		
Parhau â'r prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl o bob oed	2016 ac yn parhau	<b>Ar waith:</b> Mae Llyfrgelloedd Abertawe'n parhau i weithio gyda Dewch Ar-lein Abertawe, LearnDirect, Dace a Choleg Gŵyr i gyflenwi cyfleoedd i ddysgu rhagor o sgiliau digidol. Rydym hefyd yn cynnal sesiynau mewnol i gefnogi defnydd cwsmeriaid o dabledi a theclynnau symudol. Rydym yn cynnal sesiynau achyddiaeth i helpu cwsmeriaid i chwilio ar-lein a hefyd sesiynau galw heibio e-lyfrau ac e-gylchgronau i helpu cwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaethau newydd hyn.  Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i wella sgiliau ein staff a chynnal digwyddiadau newydd i chwalu rhwystrau i ddefnyddio'r sgiliau.  Rydym wedi llofnodi Siarter Ddigidol Llywodraeth Cymru.  Rydym yn helpu i arwain Fforwm Digidol Bae Abertawe i bartneriaid a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chynhwysiad

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>digidol i rannu arfer da.</p> <p>Rydym wedi cyflwyno system gofnodi newydd i gofnodi nifer y digwyddiadau a gynhelir sy'n ymdrin ag anghydraddoldeb digidol.</p> <p>Dengys ymchwil Llywodraeth Cymru fod y math hwn o weithgaredd yn effeithiol – yn 2012, roedd gan 70% o breswylwyr fynediad i'r rhyngwyd gartref. Yn 2014/15 y ganran oedd 81%.</p> <p><a href="https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales">https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales</a></p>
Ystyried dod o hyd i gymhorthion cyfrifiadurol ar y golwg ychwanegol/gwell a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd	2016	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi prynu sticeri gweledd uchel ychwanegol i lyfrgelloedd eu darparu ar gyfer bysellfyrddau ac rydym wedi parhau i brynu llygod amgen/peli rholer a bysellfyrddau i'w benthyca gan lyfrgelloedd ar gais.</p> <p>Cynhelir hyfforddiant staff ychwanegol a chaiff teclynnau eu hailgyflenwi yn 2017</p>
Parhau â'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n mynd ag Amgueddfa Abertawe i bobl hŷn a grwpiau	2016	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae'r amgueddfa'n parhau i ddarparu sgwrsiau i amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol, canolfannau dydd, grwpiau cefnogi dementia ac unedau preswyl. Y tair sgwrs fwyaf poblogaidd o hyd yw Blitz Abertawe, Rheilffordd y Mwmbwls a Hanes a Thrysorau Amgueddfa Abertawe. Mae ychydig o sgwrsiau dewisol eraill ar gael.</p> <p>Eleni cyflwynwyd 43 o sesiynau allgymorth i 1188 o bobl.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynydd 2017
		<p>Cafodd pump o'r sesiynau eu cyflwyno i bobl ifanc. Gellir amrywio hyd y sgysiau gan ddibynnu ar y grŵp ac yn bennaf eu nod yw rhannu atgofion o'r gorffennol yn hytrach nag archwilio hanes mewn manylder.</p> <p>Mae blychau atgofion yn cael eu creu mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd. Mae blychau atgofion yn parhau'n boblogaidd ac i gael eu defnyddio er bod eu dosbarthu a'u dychwelyd yn gallu bod yn broblemus weithiau. Trefnir y blychau yn ôl thema neu ddegawd ac maent yn cynnwys eitemau a roddwyd nad oes angen eu cynnwys yn y casgliadau. Mae nifer y blychau atgofion wedi cynyddu i 14 ac mae gwirfoddolwyr yn gweithio ar flychau newydd gan gynnwys 3 ar y cyd â Chanolfan Dylan Thomas.</p> <p>Sesiynau Cymunedol y Rhaglen Addysg: Yn ystod tymor yr hydref bu'r amgueddfa yn gweithio mewn partneriaeth â Theatr na nÓg i gyflwyno rhaglen addysg a oedd yn cynnwys cynhyrchiad ynglŷn â hanes lleol a'r cwricwlwm. Mae'r amgueddfa'n cynnig perfformiadau nos i amrywiaeth o grwpiau hanes lleol, cymdeithasol a chyfeillgarwch. Yn 2016 y cynhyrchiad oedd The Ghost of Morfa Colliery a oedd yn ymdrin â thrychineb pwll glo yn Nhairbach. Aeth dros 230 o bobl leol i un o 4 perfformiad yn yr hydref gydag ymweliad â'r amgueddfa â lluniaeth a sgwrs am thema'r ddrama. Roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr, tua 80%, yn 55+ oed.</p> <p>Lle Addas i Bobl â Dementia:</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>Mae cegin yn null y 1960au wedi cael ei threialu yn yr oriel lan lofft. Yn anffodus mae'r canlyniadau wedi bod yn siomedig. Mae'r gegin wedi cael ei gweld a'i defnyddio'n fwy fel ardal chwarae i blant a theuluoedd yn hytrach nag at ei diben gwreiddiol. Mae'r oriel yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried. Cynhaliwyd trafodaethau byr cychwynnol gyda PABM am y posibilrwydd o dreialu'r gegin mewn ward ysbyty ar gyfer pobl â dementia. Mae opsiynau eraill dan sylw yn cynnwys defnyddio cegin y 1960au a gosodiadau tebyg eraill mewn arddangosfeydd dros dro a/neu i'w defnyddio yn yr ystafell addysg.</p> <p>Gwirfoddoli – Mae Amgueddfa Abertawe'n parhau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bob grŵp oedran; fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r gwirfoddolwyr dros 55 oed gyda'r gwirfoddolwr hynaf yn 90 oed. Ar hyn o bryd mae gan yr amgueddfa tua 70 o wirfoddolwyr wedi'u rhestru ar amrywiaeth o dasgau a phrosiectau gan gynnwys ymchwil, dogfennu, cynorthwywyr oriel, tywysyddion teithiau a chriw Olga.</p>
Archwilio hanes a threftadaeth y gymuned LGBT fel opsiwn ar gyfer rhaglen yr amgueddfa	2018	<p><b>Ar waith:</b> Yn anffodus, nid oedd trafodaethau ag Unity a phartneriaid eraill ar brosiect yn llwyddiannus.</p> <p>Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad â Good Vibes, y fforwm ieuencid LGBT, ynglŷn â chais sylweddol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu YMCA Abertawe a fydd yn dechrau yn 2018. Nodwyd ychydig o weithgareddau ar gyfer y cais cyffredinol gan gynnwys</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>archwilio'r iaith Polari a phroms 'dod allan'.</p> <p>Yn ystod yr ymgynghoriad soniwyd am y ffaith fod 2017 yn nodi 50 mlynedd ers y ddeddf ym 1967 a oedd yn gyfrifol am ddatgrimineiddio gwrwgydiaeth i bob pwrpas. Ni ellid rhoi ystyriaeth fanylach i syniad am brosiect i ddathlu hyn trwy gais Gwreiddiau Ifanc gan fod yr YMCA a'r amgueddfa eisoes yn datblygu ceisiadau Gwreiddiau Ifanc. Fodd bynnag, gellir datblygu'r syniadau hyn fel rhan o'r cynllun gweithgareddau cyffredinol ar gyfer cais YMCA.</p>
<p>Ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb yn Oriol Glynn Vivian, gan weithio gyda grwpiau megis plant a phobl ifanc, pobl anabl, cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ac LGBT</p>	<p>2018 – a pharhau i'w fonitro</p>	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae'r oriel yn cynnal amrywiaeth eang o wasanaethau addysg ffurfiol ar gyfer ysgolion ac athrawon (cynradd, uwchradd, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), ffyrdd eraill o ddysgu (FfEDd), unedau atgyfeirio disgyblion, a cholegau addysg bellach ac uwch). Hefyd mae gennym:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amrywiaeth eang o weithdai ar gyfer cynulleidfaoedd targed</li> <li>• rhaglen sgysiau a digwyddiadau gyhoeddus</li> <li>• artistiaid preswyl</li> <li>• strategaeth datblygu cynulleidfa ar gyfer grwpiau targed gan gynnwys pobl ifanc, cymunedau LGBT, grwpiau BME</li> <li>• mentrau gwrth-dlodi.</li> </ul> <p>Mae enghreifftiau diweddar o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys gorymdaith ailagor yr oriel. Roedd sefydliadau partner a chymunedau'n cynnwys Canolfan LGBT Unity, Grŵp Good Vibes yr YMCA, Lloches Abertawe ar gyfer Pobl Ifanc</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>Ddigartref, Dinas Noddfa Abertawe a'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.</p> <p>Mae Oriol Gelf Glynn Vivian yn gwbl hygyrch ac mae ganddi lifft i roi mynediad i'r holl orielau a lleoedd. Mae gennym doiledau hygyrch, cyfleuster Changing Places a pharcio dynodedig ar gyfer deiliaid bathodynau glas.</p>
<p>Parhau i gyflwyno Cynllun Gweithgareddau Canolfan Dylan Thomas a ariennir trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.</p>	<p>2017</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae ein gweithgareddau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu â llenyddiaeth rhad ac am ddim i deuluoedd yn Lle Dysgu Arddangosfa Dylan Thomas, a gweithio gyda chanolfannau teulu i annog cyfranogi yn ein rhaglenni ymhlith teuluoedd incwm isel.</li> <li>• Datblygu ein darpariaeth AAA trwy waith partneriaeth cyson ag ysgolion megis Ysgol Crug Glas, Ysgol Pen-y-bryn a Chyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA)Pentrehafod.</li> <li>• Cynnal gweithdai ysgrifennu am ddim i bobl ifanc trwy ein Sgwadiu Sgwennu Ifanc, a datblygu ein sgwadiu trwy weithio ar brosiectau gydag ysgolion yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.</li> <li>• Cynnal sesiynau atgofion, teithiau a gweithdai arddangosfa ar gyfer grwpiau dementia, cartrefi gofal preswyl, Age Connects a sefydliadau cysylltiedig.</li> <li>• Cynnal prosiectau gyda sefydliadu a grwpiau megis Uned Anafiadau Ymennydd Trawmatig Ysbyty Treforys, Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru, a'r Clwb 10 o'r Gloch i bobl hŷn sydd mewn</li> </ul>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		perygl o fod yn unig yn Nhreforys.

**Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth modern, diogelu pobl ddiamddiffyn, radicaleiddio ac eithafiaeth etc.**

**Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Datblygu Strategaeth Troseddau Casineb  Cynyddu dealltwriaeth o droseddau casineb ac ymwybyddiaeth o sut mae rhoi gwybod amdanynt ymhlith staff a phartneriaid allweddol	Mawrth 2017 gyda monitro blynyddol wedi hynny	<b>Ar waith:</b> Lluniwyd Cynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb ym mis Tachwedd 2016 (grwpiau cynllunio'n cwrdd bob 6 wythnos). Mae sesiwn ymwybyddiaeth a digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr wedi cael eu cynnal eleni.
Cynnal fframwaith ar gyfer cyflwyno ymyriadau atal a chefnogaeth i unigolion diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu denu i eithafiaeth dreisgar a/neu ddi-drais.	2020 – gyda chynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol	<b>Ar waith:</b> Cynllun Gweithredu Atal wedi'i ddatblygu  Cyhoeddir proffil lleol gwrthderfysgaeth (PLIG) yn flynyddol, sy'n cyfeirio'r Cynllun Gweithredu Atal  Mae Panel Sianel yn cwrdd bob mis
Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff a sefydliadau partner o gaethwasiaeth fodern a sut mae cyfeirio dioddefwyr	Mawrth 2017 gyda monitro blynyddol wedi hynny	<b>Ar waith:</b> Mae Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Bae'r Gorllewin yn cwrdd bob tri mis ac yn adrodd i Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru am ei gynnydd  Y llynedd daeth 914 o bobl i sesiynau ymwybyddiaeth gwrthgaethwasiaeth

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		Mae llwybr atgyfeirio bellach wedi'i sefydlu a'i rannu â phartneriaid
Parhau â rôl y Grŵp Teuluoedd a Chwarae Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Rhwydwaith Chwarae traws-sector o ran ymwybyddiaeth o droseddau casineb a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern.	2019 – cyfrannu at yr Archwiliad Digonolrwydd Chwarae	<b>Ar waith:</b> Mae hyfforddiant a drefnwyd gan y Llif Gwaith Teuluoedd a Chwarae BME wedi cael ei gynig i staff rheng flaen a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gymuned.
Sefydlu gweithgor i archwilio cyfleoedd mewn perthynas â hyder a diogelwch wrth fynd o le i le yn Ninas a Sir Abertawe	2017	<b>Ar waith:</b> Gweithgor wedi'i sefydlu a chynnydd wedi'i wneud gyda phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys Heddlu De Cymru a First Cymru. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2017-2018.
<b>Tai a Diogelu'r Cyhoedd</b>		
Adolygu'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu o ran alcohol, adloniant a lluniaeth hwyr y nos, gan ystyried yn arbennig yr angen i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn	Gorffennaf 2018	Bydd yr adolygiad hwn yn datblygu'n fwy yn nes at y terfyn cau.
Adolygu polisi'r cyngor o ran gamblo, gan ystyried yn arbennig yr angen i sicrhau bod plant a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn	Ionawr 2019	Bydd yr adolygiad hwn yn datblygu'n fwy yn nes at y terfyn cau.
Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau a thwyll stepen drws i atal pobl hŷn rhag bod yn ddioddefwyr	2016 a chynhelir ymgyrchoedd parhaol	<b>Ar waith:</b> Ymgymeryr â hyfforddiant gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) er mwyn defnyddio taflenni a sticeri drws diwygiedig sy'n ymwneud â galwyr carreg drws digroeso.



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>Mae staff yn mynd i gyfarfodydd gyda thenantiaid am achosion o dwyll, gan gynnwys cynrychiolwyr lloches a Lle Cymunedol Tesco.</p> <p>Erthygl yn Rhifyn 1 Tŷ Agored 2017 am alwyr niwsans a masnachwyr twyllodrus</p>
Darparu hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth, gydag asiantaethau cefnogi, wrth nodi twyll	2016 a chynhelir hyfforddiant parhaol	<p><b>Ar waith:</b> Hyfforddiant parhaus ar gyfer staff y cyngor a sefydliadau'r trydydd sector</p> <p>Sefydlwyd grŵp o'r enw "Ffrindiau yn erbyn Twyll" i rannu rhybuddion er mwyn atal a diogelu pobl ddiameddiffyn rhag bod yn ddioddefwyr.</p> <p>Cwblhau ymgysylltu â "Chysylltwyr Cymunedol" i gynyddu ymwybyddiaeth o hunangymorth a all ddiogelu pobl rhag bod yn ddioddefwyr.</p> <p>Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth twyllwyr credyd i staff yng Nghymru gan Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru ym mis Mai 2016.</p>
<b>Priffyrdd a chludiant</b>		
Cynnal prosiect Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gydag ysgolion	Bob blwyddyn	<p><b>Ar waith:</b> Cafodd prosiectau LIDMC eu cwblhau'n llwyddiannus erbyn diwedd mis Mawrth 2017, ac mae cais i roi prosiect LIDMC ar waith yn St Thomas o 17 Ebrill wedi bod yn llwyddiannus.</p>

**Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i fodloni'n hymrwymiaidau a nodwyd yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc**  
**Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Camau Gweithredu Corfforaethol</b>		
Cynyddu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono trwy sicrhau bod yr holl staff yn mynd i hyfforddiant corfforaethol CCUHP ac yn cyfranogi ynddo	2017	<p><b>Ar waith:</b>            Datblygu cyflwyniadau ar-lein i CCUHP ar gyfer yr holl staff</p> <p>Hyfforddiant CCUHP wedi'i wreiddio fel amcan CCUHP gyda SEP</p> <p>Cynllun hyfforddi corfforaethol wedi'i ddatblygu fel rhan o gynllun gweithredu hawliau plant a phobl ifanc CCUHP</p>
Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono trwy sefydlu hawliau plant mewn arfer beunyddiol a defnyddio'r logo Hawliau Plant yn yr holl weithgarwch hyrwyddo	2017	<p><b>Ar waith:</b>            Mae deunydd hyrwyddo Dilly'r Ddraig wedi'i brynu a'i ddsbarthu</p> <p>Mae #Dillydragonswansea #Dillyrddraigabertawe yn gysylltiedig â ffrydiau Twitter corfforaethol a'u rhannu ag ysgolion a sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn dulliau'r Sgwrs Fawr</p> <p>Mae Dilly'r Ddraig yn cael ei defnyddio'n fwy eang gan sefydliadau e.e. ar arwyddion di-fwg ar gatiâu ysgolion, ar arwyddion traethau di-fwg</p>
Sicrhau cyfleoedd ansawdd ar gyfer llais plant a phobl ifanc mewn datblygiadau	Parhaol gyda monitro	<p><b>Ar waith:</b>            Mae plant a phobl ifanc 2-25 oed yn parhau i gyfeirio polisi a</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
polisi/gwasanaeth sy'n effeithio arnynt	blynyddol	<p>chyflwyniad gwasanaethau trwy ddulliau'r Sgwrs Fawr, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fforwm y Sgwrs Fawr</li> <li>• Fforwm Llais y Disgybl</li> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG)</li> <li>• Cyfranogiad ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Uwch-arolwg PPhl</li> </ul> <p>Ymgynghorir â phlant a phobl ifanc hefyd ynghylch penderfyniadau polisi/gwasanaeth trwy'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)</p> <p>Yn yr Adran Tai, mae gwaith yn parhau gyda'r Tîm Cynnwys Pobl Ifanc i ddatblygu grŵp y Sgwrs Fawr.</p> <p>Yn y gwasanaethau diwylliannol, mae'r Glynn Vivian yn gweithio gyda grŵp o gyfranogwyr ifanc fel y gallant ddatblygu sgiliau, magu hyder a chyfrannu syniadau i gyflawni achrediad Arts Award ac yn ystod 2017/2018 byddwn yn lansio rhaglen wirfoddolwyr newydd i gynnwys pobl ifanc.</p> <p>Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu Strategaeth Gofalwyr. Caiff hon ei chynhyrchu ar y cyd â gofalwyr ifanc a bydd yn cynnwys cefnogaeth drostynt.</p> <p>Yn yr Adran Addysg, cynhelir Fforwm Llais y Disgybl bob hanner tymor sy'n rhoi cyfle i bob ysgol rannu ei barn a thrafod y materion allweddol sy'n bwysig iddynt gyda'r Prif Swyddog Addysg.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Parhau i sefydlu hawliau plant ym mhob arfer a gweithdrefn yn yr adran a chyda sefydliadau partner a gomisiynir.	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r ymrwymiad i CCUHP yn cael ei gynnwys ym mhob trefniad cytundebol comisiynu yn yr Adran Tlodi a'i Atal</p> <p>Mae cynlluniau ar waith i ehangu hyn ar draws y Gyfarwyddiaeth Pobl trwy ymagwedd Pobl at gomisiynu</p>
Cynyddu ymwybyddiaeth o dulliau'r "Sgwrs Fawr", gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed	2017	<p><b>Ar waith:</b> Caiff dulliau'r Sgwrs Fawr eu hyrwyddo'n eang i ysgolion gyda 5,381 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dulliau rhwng mis Medi 2015 a mis Medi 2016 (adroddir am y ffigurau bob mis Medi)</p>
Datblygu strategaeth gyfathrebu a chynllun ymgyrch a chyflwyno'r amcanion allweddol ar draws Abertawe gyfan	2016	<p><b>Ar waith:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf am Lais y Disgybl a'r Sgwrs Fawr ei chyfleu trwy'r Cylchlythyr Addysg</li> <li>• Rhennir cyflawniadau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau â'r Tîm Cyfathrebu i rannu arfer sy'n arwain y sector.</li> <li>• Caiff digwyddiadau'r Sgwrs Fawr a Llais y Disgybl eu rhannu hefyd â'r Tîm Cyfathrebu; caiff stwnshnodau eu dilyn a'u haildrydar ar draws amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol</li> </ul>
Sefydlu gweithgor i archwilio materion ynghylch ystrydebu rhyw	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r gweithgor wedi cael ei sefydlu gyda chynlluniau ar y gweill i gynnal seminar cynyddu ymwybyddiaeth ym mis Hydref 2017.</p>

#### Amcan Cydraddoldeb 4 – Parhau i wella darpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant a

**Theuluoedd, gan sicrhau bod anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i'r holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu**

**Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</b>		
Datblygu ymhellach ein gwasanaeth drws blaen yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i alluogi mynediad cyfartal i wybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch y gwasanaethau statudol a'r sector ataliol	2016	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) yn hyrwyddo ymyrryd ac atal cynnar i sicrhau bod pobl o bob oedran yn gallu cael eu cefnogi'n well i gyflawni eu canlyniadau personol, ac archwilio opsiynau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chefnogaeth.</p> <p>Ceir pwynt cyswllt unigol i wasanaeth GCCh y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob plentyn, person ifanc a'i rieni/ofalwyr. Mae gwasanaethau GCCh ar gael hefyd i bobl ifanc sy'n 16 a 17 oed sy'n gweithio yn Info-Nation, yn yr un adeilad â thîm Barnardo's yng nghanol y ddinas.</p>
Datblygu gwasanaeth i bobl sy'n cam-drin yn y cartref sy'n cynnwys gwaith un i un a gwaith grŵp, wedi'i lywio gan adborth defnyddwyr, sy'n cefnogi'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gyda menywod a phlant lle mae trais yn y cartref yn nodwedd o'u bywydau	2016	<p><b>Ar waith:</b> Abertawe yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i lansio gwasanaeth Canolfan Cam-drin Domestig, sy'n canolbwyntio ar helpu plant a theuluoedd sy'n profi trais domestig neu broblemau perthynas sy'n gwaethygu.</p> <p>Roedd staff y cyngor, darparwyr gwasanaethau, asiantaethau partner, elusennau a goroeswyr oll yn cyfrannu at ddylunio'r ganolfan ac roeddent yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol ar sail asesiad o angen poblogaeth. Nod cyffredinol y Ganolfan Cam-drin Domestig yw sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr amser iawn i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol, iach sy'n atal effaith negyddol trais</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>domestig ar oedolion a phlant. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd teulu cyfan sy'n cynnwys gwaith grŵp a gwaith unigol gyda phlant, goroeswyr a chamdrinwyr.</p> <p>Trwy sicrhau cefnogaeth effeithiol i deuluoedd lle mae trais domestig yn nodwedd o fywyd teulu, bydd hyn yn hyrwyddo hawliau a diogelwch plant yn y ganolfan, gan arwain at ganlyniadau gwell.</p>
<p>Rhoi'r Cynnig Gweithredol o Drefniad Eiriolaeth ar waith i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i gefnogaeth ychwanegol i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt</p>	<p>2016</p>	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae gan y Gwasanaeth GCCh weithwyr cymdeithasol cymwys sy'n gwrandao a darparu ymateb cymesur p'un a ellir darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth neu mae angen asesiad. Mae'r holl ymarferwyr rheng flaen yno i helpu i nodi a oes angen eiriolaeth ar y pwynt cyswllt cyntaf ("cynnig gweithredol"). Mae'r holl ymarferwyr wedi cael eu hyfforddi ac yn meddu ar sgiliau addas i asesu pan fo rhywun yn gallu elwa o eiriolwr a byddant yn cymryd camau gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn.</p> <p>Mae sawl math gwahanol o eiriolaeth ar gael yn Abertawe ac mae gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i'r bobl hynny y mae angen cefnogaeth arnynt i roi eu barn am eu gofal a'u cynlluniau cefnogaeth. Mae Abertawe'n cydweithredu i nodi opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaeth eiriolaeth yn ardal Bae'r Gorllewin.</p>
<p>Datblygu a chyflwyno trefniadau adolygu plant sy'n derbyn gofal i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan arweiniol yn eu hadolygiadau</p>	<p>2017</p>	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>O fewn ein model Signs of Safety (SoS) o arfer gwaith cymdeithasol, mae pwyslais cryf ar y canlyniadau y byddai eu hangen ar blentyn sy'n derbyn gofal neu yr hoffai ef/hi eu cyflawni, a sut gellir cyflawni'r rhain. Bydd y cynllun gofal a chefnogaeth yn dangos amserlenni, y camau nesaf a phwy sy'n</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>mynd i wneud beth.</p> <p>Rydym yn gweithio ar daith arfer da, arweiniad fesul cam o'r diwrnod y rhoddir llety i blentyn tan ei adolygiad cyntaf. Cynhelir adolygiadau'n rheolaidd, yn ôl amserlenni statudol, ac mae gan ein Huned Ansawdd Gwasanaeth dîm o Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd wedi mabwysiadu methodoleg Signs of Safety, gan roi pob plentyn sy'n derbyn gofal wrth wraidd yr adolygiad.</p>
<p>Datblygu methodoleg Signs of Safety yn y timau gwaith cymdeithasol ymhellach, a'i rhoi ar waith. Model yw hwn sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n hyrwyddo llais y plentyn, yn cynnwys ei deulu a rhwydweithiau ehangach wrth gynllunio ar gyfer diogelwch ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.</p>	<p>2017</p>	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio model Signs of Safety (SoS) ar draws y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd cyfan. Ymagwedd flaengar at waith achosion amddiffyn plant yw hon sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi'i threfnu i ystyried diogelwch ac wedi'i gwreiddio mewn partneriaeth a chydweithredu. Mae'n archwilio cryfderau a pheryglon mewn teuluoedd er mwyn sefydlogi ac atgyfnerthu sefyllfa plentyn a theulu. Ychydig iawn o gynnydd a fu yn y maes hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strwythur rheoli newydd i gynyddu ansawdd arfer</li> <li>• Datganiad polisi: <i>“Sut rydym yn cefnogi teuluoedd - Darparu'r Ymateb lawn ar yr Amser lawn”</i></li> <li>• Parhau i roi SoS ar waith ar draws y gwasanaeth cyfan, gyda strwythur tîm ac arweinwyr arfer rôl newydd</li> <li>• Newid ffocws yr Uned Ansawdd Gwasanaeth i roi plant a theuluoedd wrth wraidd arfer SoS</li> <li>• Gwaith stori bywyd gyda phlant sy'n dechrau/mewn lleoliadau</li> <li>• Mae'r llawlyfr 'I Am Me' yn rhoi fframwaith ac offer y dylai ymarferwyr fod yn eu defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i greu eu llyfr stori bywyd unwaith bod</li> </ul>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		cynllun parhaol ar waith
Datblygu Strategaeth Anableddau Plant gan ymgynghori â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, partneriaid amlasiantaeth a'r trydydd sector i sicrhau y gall plant anabl a'u teuluoedd gael mynediad i amrywiaeth o ddarpariaeth ar draws y continwmm angen - a chael mynediad i'r cyfle/gwasanaeth cywir o'r man cywir ar yr adeg gywir	2017	<p><b>Ar waith:</b> Trwy'r Continwmm Cefnogi Teuluoedd, gyda phartneriaid amlasiantaeth ac mewn ymgynghoriad, fel rhan o adolygiad comisiynu Abertawe Gynaliadwy, cafwyd cynnydd sylweddol y disgwylir iddo barhau eleni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymuno â llif gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gyda phartneriaid addysg</li> <li>• cwmpasu darpariaeth seibiannau byr dros nos mewnol gyda phartneriaid addysg</li> <li>• ailstrwythuro'r Tîm Anabledd Plant</li> <li>• gweithio i ystyried sut caiff meini prawf cymhwysedd eu defnyddio a lle caiff plant eu dyrannu</li> <li>• adolygu taliadau uniongyrchol a sut cânt eu cynnig</li> <li>• llwybrau ar gyfer achosion â gofal parhaus ac ymddygiad cymhleth</li> <li>• Gweithio ar y broses bontio, gyda phwyslais penodol ar y bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed neu sy'n profi problemau materion iechyd a/neu gamddefnyddio sylweddau</li> </ul>
Datblygu gwasanaeth gofal gadael mewn partneriaeth â darparwr trydydd sector. Ffurf derfynol y gwasanaeth newydd i'w chyfeirio gan farn partneriaid a phobl ifanc	2016	<p><b>Ar waith:</b> Mae bellach gwasanaeth a reolir ar y cyd gyda Barnardo's ar waith yn Abertawe: BAYS+@INFONATION.</p> <p>Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys y timau gwaith cymdeithasol, ymgynghorwyr pobl ifanc, swyddogion tai a gweithwyr addysg ac eirioli mewn un tîm gweithrediadol.</p>



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		Ein nod yw darparu'r gwasanaeth integredig cyfan mewn un lleoliad, gan alluogi mynediad hawdd i bobl ifanc. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau o leoliad diogel, cyfleus a chyfforddus e.e. gwasanaethau cwnsela, paratoi ar gyfer grwpiau annibyniaeth, gwaith grŵp ymgynghori etc.
Datblygu fframwaith cefnogi ac adolygu cynhwysfawr i'r holl unigolion y dyfernir Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig iddynt. Gwasanaethau i gynnwys cyfleoedd hyfforddi i ofalwyr, grwpiau ar gyfer pobl ifanc a chyngor a chymorth cyffredinol trwy dîm penodol	2016	<b>Ar waith:</b> Mae gwasanaeth teuluoedd a ffrindiau newydd yn cael ei sefydlu i ddarparu gwasanaeth ehangach i blant sy'n byw gyda ffrindiau a gofalwyr sy'n aelodau teulu, gan gynnwys y rheiny y dyfernir Gorchymynion Gwarcheidwaeth Arbennig a Threfniadau Plant (Gorchymynion Preswyliaeth gynt) iddynt. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gyda gofalwyr a'r bobl ifanc eu hunain a bydd yn targedu cefnogaeth i'r teuluoedd hynny sy'n profi heriau ac anawsterau penodol.
Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Iunio polisi a gweithdrefnau ar gyfer cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' Abertawe yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr maeth y tu hwnt i ddeunaw oed a nes iddynt fod yn barod am annibyniaeth	2016	<b>Ar waith:</b> Mae ymrwymadau i blant a theuluoedd wedi'u nodi ym Mholisi Parhauster Dinas a Sir Abertawe, gan gefnogi plant i gael eu cefnogi i fyw yn eu teuluoedd eu hunain a darparu gwasanaethau i hyrwyddo gallu teuluoedd i ofalu am eu plant yn effeithiol. Nod yr ymagwedd hon yw sicrhau bod plant yn parhau i fyw mewn teuluoedd cefnogol lle bynnag y bo modd.
Llunio Strategaeth Anabledd i Blant wedi'i diweddar'u'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Bydd hyn yn golygu cynnwys rhieni a gofalwyr yn fwy wrth gynllunio gofal trwy ddefnyddio pecynnau	2016	<b>Ar waith:</b> Yn y continwmm cefnogi teuluoedd, cynhaliwyd Adolygiad Comisiynu Anabledd Plant. Mae'r adolygiad hwn wedi rhoi cyfle da i ymgynghori ynghylch strategaeth anabledd plant newydd ar sail gweledigaeth, egwyddorion ac ymagwedd y gwasanaeth a

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Taliad Uniongyrchol yn fwy		Ilunio a rhoi hon ar waith. Mae Strategaeth Anabledd Plant Newydd – Cynlluniau i'r Dyfodol yn cael ei pharatoi a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu gan y Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
<p>Sefydlu cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ymhellach wrth ddarparu cefnogaeth i blant y mae angen cefnogaeth therapiwtig arnynt trwy</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• aelodaeth barhaol a gweithgar gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn y Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl</li> <li>• datblygu pecynnau cefnogaeth therapiwtig i blant, teuluoedd ac oedolion arwyddocaol o'r Tîm Therapi Mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar</li> </ul>	2016	<p><b>Ar waith:</b> Mae cynnydd wedi'i wneud i sicrhau bod y tîm therapi mewnol yn rhan effeithiol ac effeithlon o ymagwedd wedi'i chydlynu a'i chomisiynu at asesiadau seicolegol a therapi sydd ar gael i blant. Bellach mae ymagwedd gyson ar waith ar draws gwasanaethau a disgyblaethau. Ceir ymrwymiad parhaus gan uwch-reolwyr i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (GIMPPH), yn lleol trwy'r Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl ac yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Bae'r Gorllewin.</p>
<b>Gwasanaethau i Oedolion</b>		
Datblygu mesurau diogelu ymhellach i oedolion diamddiffyn mewn ffordd fwy diogel, personol ac amserol	2016	<p><b>Wedi'i gwblhau:</b> Mae prosesau diogelu wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod parhad proses ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Mae gwybodaeth am berfformiad wedi cael ei datblygu i ganiatáu craffu ymhellach ar berfformiad a chadw at amserlenni.</p>
Gwella'r prosesau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid	2016	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r ôl-groniad DoLS wedi cael ei glirio'n llawn ond mae'n her parhaus i reoli lif arferol ceisiadau DoLS (100 y mis ar gyfartaledd). Mae'r trefniadau presennol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd cynnig am drefniadau diwygiedig yn cael ei ystyried gan Brif Swyddogion maes o law.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Adolygu integreiddio ag iechyd yn y tair canolfan gymunedol	2016	<b>Ar waith:</b> Mae tair canolfan integredig wedi cael eu sefydlu ers mis Ebrill 2015. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn disgrifio gwasanaeth mwy cydlynol a thystiolaeth glir o ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person. Rydym yn parhau i atgyfnerthu'r ymagwedd tîm amlddisgyblaeth yn y Gwasanaethau i Oedolion i sicrhau bod gwasanaeth llyfn yn cael ei ddarparu.
Parhau i drawsnewid y Gwasanaethau i Oedolion er mwyn sicrhau gwasanaeth a gyfeirir gan ddinasyddion	2016	<b>Ar waith:</b> Mae ein hofferyn asesu wedi cael ei adolygu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.  Mae Fframwaith Arfer Gwasanaethau i Oedolion yn cael ei ddatblygu i sicrhau ymagwedd at arfer sy'n canolbwyntio ar y person (fersiwn y Gwasanaethau i Oedolion o Signs of Safety).
Adolygu cynlluniau comisiynu'r Gwasanaethau i Oedolion ymhellach	2016	<b>Ar waith:</b> Mae asesiad poblogaeth wedi cael ei gwblhau yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. O ganlyniad, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddealltwriaeth dda o anghenion grwpiau cleientiaid unigol.  Mae cynlluniau comisiynu bellach yn cael eu datblygu ar gyfer grwpiau cleientiaid anabledau dysgu, anabledau corfforol, iechyd meddwl a phobl hŷn. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cydgynhyrchu ac mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gobeithio ymgynghori yn eu cylch yn ystod haf/hydref 2017.
Caiff gwe-dudalennau eu diweddarau fel y bo'n briodol i wella mynediad i wybodaeth, cymorth a chyngor	2017	<b>Ar waith:</b> Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn unol â gofynion sy'n ymwneud â gwasanaethau IAA a geir yn y Ddeddf

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynydd 2017
		<p>Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p> <p>Mae trafodaethau hefyd yn parhau gyda chydweithwyr corfforaethol ynglŷn â hwyluso'r broses o ddod o hyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar dudalen flaen y cyngor.</p>
Datblygu fframwaith arfer gwaith cymdeithasol i oedolion. Mae angen i'r ymagwedd hon fod yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i hyrwyddo llais defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae fframwaith arfer yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd hwn ar waith erbyn diwedd 2017.</p>
Datblygu ymhellach ein gwasanaeth drws blaen yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i alluogi mynediad hwylus i wybodaeth, cyngor a hefyd y gwasanaethau ataliol	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae pob cynorthwy-ydd gwybodaeth a chyngor wedi'i hyfforddi i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ogystal â chyfeirio pobl i wasanaethau ataliol.</p> <p>Mae gwaith i ddatblygu'r swyddogaeth tîm amlddisgyblaeth hefyd yn parhau i sicrhau bod cefnogaeth broffesiynol yn arwain darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a, lle bynnag y bo modd, fod pobl yn gallu cynnal eu hunain yn hytrach na gofyn am wasanaeth.</p>
Parhau i gynyddu nifer y rhai sy'n derbyn taliad uniongyrchol fel ffordd o sicrhau bod pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad i wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r nifer sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn cynyddu'n gyson ac mae gwaith pellach yn parhau i sicrhau bod y gwasanaeth cefnogi'n cael ei lunio i ddarparu cefnogaeth briodol. Mae gwaith pellach hefyd yn parhau i ystyried cyfraddau tâl ar gyfer Cynorthwywyr Cefnogi Byw'n Annibynnol i sicrhau y gallant gael eu recriwtio i gefnogi pobl.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Sicrhau bod y teclyn asesu presennol yn cydymffurfio ag argymhellion Llywodraeth Cymru wrth baratoi i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith	2016	<b>Ar waith:</b> Dyluniwyd yr offeryn asesu i gydymffurfio, ond bellach mae'n rhaid iddo gael ei ddatblygu i fod yn rhan o'n system wybodaeth (PARIS).

**Amcan Cydraddoldeb 5 – Gwella cyrhaeddiad disgyblion a pharhau i gau bylchau perfformiad**  
**Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Gwella cyrhaeddiad disgyblion**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Addysg a Thlodi a'i Atal</b>		
Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiaf gystal â'u cyfoedion ar ddiwedd (Cyfnod Allweddol 4)	Dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn nhymor yr hydref.	<b>Ar waith:</b> 69.8% yn 2016 o'i gymharu â 66.3% ar gyfer disgyblion eraill.
Dysgwyr o gefndiroedd Bangladeshaidd Asiaidd yn cyflawni o leiaf gystal â'u cyfoedion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4	Dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn nhymor yr hydref.	<b>Ar waith:</b> 75% yn 2016 o'i gymharu â 66.3% ar gyfer disgyblion eraill.
Cynnal tueddiadau gwellhaol wrth asesu bechgyn a merched yng Nghyfnod Allweddol	Dadansoddiad blynyddol o	<b>Ar waith:</b> CA2: Mae canlyniadau bechgyn a merched wedi gwella dros

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
2 (CA2) a Chyfnod Allweddol 3 (CA3)	ganlyniadau Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn nhymor yr hydref	bum mlynedd ac mae'r bwch rhwng y rhywiau wedi lleihau ychydig.  CA3: Mae canlyniadau bechgyn a merched wedi gwella dros bum mlynedd ac mae'r bwch rhwng y rhywiau wedi lleihau.
Cau'r bwch rhwng perfformiad bechgyn a merched.	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref.	<b>Ar waith:</b> CA2: Roedd y bwch rhwng y rhywiau -6.0% yn 2015, gwellhaodd i -5.1% yn 2016.  CA3: Roedd y bwch rhwng y rhywiau -6.6% yn 2015, gwellhaodd i -6.0% yn 2016.
Cau'r bwch perfformiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref.	<b>Ar waith:</b> CA2: Tuedd gynyddol pum mlynedd o ran canlyniadau PYDd, ond mae PYDd yn parhau i fod dros 10% yn is na disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.  CA3: Tuedd gynyddol gref i ddisgyblion PYDd, ond mae canlyniadau'n parhau i fod dros 16% yn is na disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.
Lleihau anghydraddoldebau mewn parodrwydd ysgol	2019	<b>Ar waith:</b> Parhau i gyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg i oddeutu 25% o'r boblogaeth 0-3 oed. Derbyniwyd lle gan 83% o'r holl blant 2-3 oed a gafodd gynnig lle mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg.  Rydym wedi cydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r Strategaeth Dechrau Gorau ac, yn benodol, hyrwyddiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ymgyrch ymwybyddiaeth

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>gyhoeddus trwy gyfres o negeseuon allweddol.</p> <p>Datblygwyd y prosiect Jig-so i efelychu agweddau ar y rhaglen Dechrau'n Deg mewn perthynas â magu plant, bydwreigiaeth a datblygiad iaith.</p>

### Amcan Cydraddoldeb 6 - Darparu cefnogaeth cydraddoldeb i ysgolion

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Gwella cyrhaeddiad disgyblion

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Parhau â gwelliant cynyddol i fynediad i isadeiledd mewn ysgolion	Ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru, Mawrth	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Cyflwynir pob prosiect fel rhan o'n rhaglen Addysg o Safon 2020 a chynllun cenedlaethol ehangach Ysgolion yr 21ain Ganrif.</p> <p>Mae'r rhaglen yn sicrhau gwelliant cynyddol i isadeiledd ein hysgolion.</p>
Pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael cynnig mynediad priodol i addysg uwchradd a chefnogaeth i achub ar y cyfleoedd hynny	2017 gyda monitro tymhorol	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Eleni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigiwyd cymorth gwaith arweiniol i 100% o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr</li> <li>• Grŵp llywio Sipsiwn a Theithwyr trawsbynciol newydd dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr</li> <li>• Mae presenoldeb ysgol yn parhau i wella ar draws y cohort</li> <li>• Cafodd 3 disgybl Sipsiwn a Theithwyr eu hintegreiddio'n llawn i addysg uwchradd</li> </ul>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Lansio offeryn i gofnodi bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth ar draws pob ysgol	Awst 2016, gyda dadansoddiad tymhorol	<b>Ar waith:</b> Mae'r offeryn wedi cael ei lansio, ond mae pobl wedi bod yn araf o ran ei fabwysiadu. Oherwydd rhai problemau technegol, caiff yr offeryn ei ailddatblygu dros fisoedd yr haf a'i ail-lansio.
Adolygu'r arweiniad i ysgolion ar Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol a chyflwyno diweddariad i benaethiaid mewn cyfarfod tymhorol a thrwy gylchlythyr yr ysgol	2016	<b>Ar waith:</b> Mae'r arweiniad a'r templedi wedi cael eu hadolygu a'u diwygio. Cânt eu hailddosbarthu i ysgolion ym mis Medi 2017 ac ar ôl hynny byddant yn cael eu cynnwys yn y llawlyfr ar-lein i benaethiaid.
Parhau â'r cytundeb contract ag UNICEF y DU i sefydlu'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ym mhob ysgol yn Abertawe	2017	<b>Ar waith:</b> Contract wedi'i adolygu a'i ddiweddarau gyda'r pwyslais ar gynladwyedd tymor hir. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016, statws yr ysgol oedd fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgolion wedi'u cynnwys a'u hyfforddi – 15%</li> <li>• Ysgolion sy'n cwblhau cofnod o ymrwymiad a chynllun gweithredu – 21%</li> <li>• Ysgolion sy'n cyflawni Gwobr Lefel 1 – 42%</li> <li>• Ysgolion sy'n cyflawni Gwobr Lefel 2 – 19%</li> </ul>
Sicrhau bod ysgolion yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu denu i derfysgaeth trwy roi polisïau diogelu cadarn ar waith i nodi plant mewn perygl ac ymyrryd/eu cefnogi fel y bo'n briodol.	2020 – gyda chynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol	<b>Ar waith:</b> Cynllun gweithredu ar waith. Cyflwyno gweithdy cynyddu ymwybyddiaeth o ataliaeth i athrawon, cynorthwywyr dysgu a llywodraethwyr – 52 o ysgolion a 1,459 o gyfranogwyr
Sicrhau bod caiff ysgolion yn cael eu hatgyfeirio at arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft, darparu cwnsela,	Wrth roi arweiniad	<b>Ar waith:</b> Rydym yn parhau i gyfeirio ysgolion i'r arweiniad perthnasol trwy ein cylchlythyr wythnosol.



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
cyngor a gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb ac unrhyw hyfforddiant perthnasol i staff, disgyblion a chyrrff llywodraethu ysgolion		
Datblygu a chyhoeddi arweiniad am bobl drawsrywiol i ysgolion	2017	<b>Ar waith:</b> Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr Arweiniad am Bobl Drawsrywiol yn ogystal ag Arweiniad LGBT ehangach ar gyfer ein hysgolion. Gobeithiwn lansio'r arweiniad yn gynnar ym mlwyddyn academaidd 2017/18.
Hyfforddiant Stonewall wedi'i gynnig i bob ysgol trwy Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)	2016	<b>Ar waith:</b> Mae ERW'n parhau i gynnig hyfforddiant Stonewall i holl ysgolion y rhanbarth.

### Amcan Cydraddoldeb 7 – Darparu cyfleoedd trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Gwella cyrhaeddiad disgyblion

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)</b>		
Lleoliadau profiad gwaith – darparu cyfleoedd o safon i fyfyrwyr brofi'r gweithle go iawn. Galluogi myfyrwyr i ddeall a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ddilyn y llwybr gyrfa o'u dewis	Parhaol – fel y trefnir lleoliadau	<b>Ar waith:</b> Gwaith parhaus gydag ysgolion i ddarparu lleoliadau profiad gwaith. Mae'r Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC) wedi mynd i sawl ffair yrfaol mewn ysgolion i ymgysylltu â myfyrwyr sy'n ystyried gyrfa yn y maes adeiladu. Darperir lleoliadau profiad gwaith trwy gynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter. Mae'r GAEC bellach yn cymryd rhan ym mhrosiect Cynnydd a reolir gan Gyrfa Cymru. Nod y prosiect yw rhoi myfyrwyr mewn amgylchedd gwaith – dechreuodd 1

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		myfyriwr ar leoliad 12 wythnos/2 ddiwrnod yr wythnos gyda'r GAEC yn ddiweddar.
Sicrhau bod yr holl recriwtio yn y dyfodol yn y GAEC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau â grwpiau/sefydliadau allanol ymhellach i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter a chefnogi'r GAEC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol.	Bob blwyddyn	<b>Ar waith:</b> Mae'r GAEC wedi derbyn mwy na 30 o grefftwyr newydd yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae'r GAEC yn bwrw ymlaen i recriwtio prentisiaid ar gyfer 2017. Mae cysylltiadau'n parhau gyda chynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter ac adrannau eraill o'r cyngor i sicrhau bod lleoedd gwag ar gael i bawb. Darperir cymorth ychwanegol i ymgeiswyr lle bo angen (e.e. cynigir cymorth un i un).  Mae'r cynllun prentisiaid wedi cael ei lansio ar draws yr awdurdod, ac mae'r GAEC yn rhan o hwn.

**Amcan Cydraddoldeb 8 – Gwella mynediad i'r isadeiledd o ran palmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc**

**Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith	Cyfredol	<b>Ar waith:</b> Mae'r cyngor yn parhau i sicrhau bod y safonau a amlinellir yn y polisi yn cael eu rhoi ar waith a'u dilyn.
Adolygu hygyrchedd celfi stryd, e.e. seddi	2017	<b>Ar waith:</b> Mae'r adolygiad yn parhau ac mae'r rhestr eiddo'n cael ei diweddarau.
Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle y bo angen	Fesul achos	<b>Ar waith:</b> Ymgwymerwyd yn llawn â rhaglen 2016-17 y llynedd. Wrthi bellach yn cytuno ar y rhaglen newydd ar gyfer 2017-18.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Sicrhau bod yr holl groesfannau newydd i gerddwyr yn cael eu dylunio i sicrhau diogelwch i bawb	Wrth i groesfannau newydd gael eu datblygu	<b>Ar waith:</b> Parhaus ac yn cael ei wneud wrth i groesfannau newydd gael eu gosod
Ystyried materion cydraddoldeb wrth lunio cynlluniau priffyrdd a thraffig.	Wrth i brosiectau gael eu llunio	<b>Ar waith:</b> Cynhelir archwiliadau ansawdd ar gyfer cynlluniau sylweddol, sy'n ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'r broses ddylunio e.e. Ffordd y Brenin
Darparu hawlenni i sefydliadau gofal a gofalwyr cymwys barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr.	Yn ôl yr angen	<b>Ar waith:</b> Mae'r fenter hon yn cael ei chynnal o hyd

### Amcan Cydraddoldeb 9 - Gwella mynediad i fysis cyhoeddus i bobl anabl a phobl hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Lansio system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysis ganolog i bobl â nam ar y golwg Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob bae gadael ac mae'n offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r stribed cyffyrddol a geir trwy neuadd yr orsaf.	Cyfredol	<b>Ar waith:</b> Mae gwybodaeth ar gael wrth ddesg wybodaeth yr orsaf fysis ac ar we-dudalennau'r cyngor.
Parhau i roi rhaglen ar waith i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bysus i alluogi mynediad hwylus i bob teithiwr	Cyfredol	<b>Ar waith:</b> Darperir cyrbau uchel wrth ddiweddarau arosfannau bysus a hefyd fel rhan o gynlluniau gwella priffyrdd.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Parhau i gynnwys grwpiau anabledd		

### Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu effeithiau tlodi ac yn eu lliniaru

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Mynd i'r afael â thlodi

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Trwy raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella canlyniadau, trwy ymyriadau megis magu plant, iaith a chwarae etc.	Mawrth 2017	<p><b>Ar waith:</b> Parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.</p> <p>Roedd 3,101 o blant 0-3 oed a'u teuluoedd yn elwa o wasanaethau Rhaglen Dechrau'n Deg trwy'r gofal plant o safon a gynigir i bob plentyn 2 oed, ymweliadau iechyd dwys, a chymorth magu plant a datblygu iaith a lleferydd. Bu cynnydd i 83% yn nifer y rhai a fynychodd leoliadau gofal plant dros y flwyddyn gyfan.</p> <p>Datblygodd Teuluoedd yn Gyntaf ei rhaglen thematig ymhellach gyda phwyslais clir ar wasanaeth ac ymagwedd y Tîm am y Teulu. Roedd prosiectau eraill yn cynnwys gwasanaethau cymorth teuluoedd a magu plant ar gyfer plant dan 11 oed, gwasanaethau cymorth teuluoedd ar gyfer plant dros 11 oed, cymorth cymunedol i deuluoedd megis Prosiect Cymorth i Deuluoedd Eastside a Chanolfan Deuluoedd Mayhill. Comisiynwyd gwasanaethau mwy arbenigol hefyd, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela'r Gyfnewidfa.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>Cofnodwyd y daeth 13,097 o bobl i ymyriadau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf y llynedd ar draws pob gwasanaeth a nododd 88% o'r rhain eu bod wedi elwa o'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn.</p>
<p>Hyrwyddo a darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwella sgiliau mewn modd amlasiantaeth er mwyn cyflawni gwasanaethau o safon trwy ymagwedd datblygu'r gweithlu.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant am Gyfweld Ysgogiadol, y Tîm am y Teulu (TAT), Meddwl sy'n Canolbwyntio ar Atebion, etc.</p>	Mawrth 2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd gwella sgiliau wedi cael ei gynig fel rhan o'r prosiect 'Y TAT mewn Ysgolion' trwy fentora a ddarperir i staff ysgol yn ogystal â hyfforddiant er mwyn ymateb i anghenion sydd wedi'u nodi.</p> <p>Y llynedd cynigiwyd 16 o gyfleoedd hyfforddi gwahanol a llanwyd 602 o leoedd hyfforddi gan weithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio yn Abertawe.</p>
<p>Nodi'r bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET a rhoi cefnogaeth bersonol iddynt (a'u teuluoedd) y mae ei hangen arnynt i barhau i fod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant</p>	Hydref 2017 – ciplun blynyddol	<p><b>Ar waith:</b> Mae ffigurau NEET yn parhau i ostwng</p> <p>Cynigiwyd cymorth pontio i 100 % o'r cohort EOTAS (disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol)</p> <p>Parhau i ddatblygu gwasanaeth NEET newydd – rydym wedi sicrhau arian i ddatblygu hwn ymhellach</p> <p>Rydym wedi gwneud rhagor o ychwanegiadau at yr offeryn Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (PABAN) i gynyddu dilysrwydd a chywirdeb y broses adnabod</p> <p>Rydym wedi cydleoli rhagor o wasanaethau allweddol i Info-</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		Nation er mwyn cynyddu gwaith partneriaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed
Parhau i ddefnyddio Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Tlodi Plant (AECTP) ar gyfer chwarae	2019 – cyfrannu at yr Archwiliad Digonolrwydd Chwarae	<b>Ar waith:</b> Caiff AECTP eu defnyddio fel arfer da ond maent wedi cael eu disodli i raddau helaeth trwy gynnwys hawliau plant yn y broses AEC gorfforaethol.
Cwmni Budd Cymunedol Tlodi Bwyd: Creu menter fwyd i drechu tlodi bwyd a bwydo pobl yn dda yn Abertawe	2017	<b>Ar waith:</b> Mae marchnad prydau bwyd wedi cael ei phrofi a'i datblygu ar draws 8 safle llety lloches. Cymerodd 91 o breswylwyr ran yn y broses. Cynhaliwyd arolwg bwyd ar draws 32 o safleoedd llety lloches y cyngor.  Rydym wedi sefydlu grŵp gweithrediadau, drafftio cynllun busnes, recriwtio prif gogydd a nodi ceginau cychwynnol
Cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau trwy raglenni Cymunedau'n Gyntaf, Cymunedau am Waith ac ESGYN sy'n cefnogi pobl a theuluoedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i wella'u cyfleoedd	Mawrth 2017	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Mae'r rhaglen Cymunedau am Waith (CaW) wedi'i gwreiddio'n llwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17. Mae'n cefnogi cleientiaid cymwys mewn clystyrau Cymunedau'n Gyntaf i wella'u cyflogadwyedd trwy fentora a chymorth dwys. Mae'r rhaglen ESGYN wedi bod yn gynllun peilot llwyddiannus wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu'n debyg iawn i CaW ond sy'n pwysleisio ar aelwydydd heb waith ym Mhenderi. Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi cyflwyno ei Model Cynllun Sengl yn llwyddiannus yn ystod 2016/17. Fodd bynnag bwriedir dod â'r rhaglen i ben yn ystod 2017/18, gan gychwyn ar gyfnod trosglwyddo sy'n dyrannu arian newydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl i wella'u canlyniadau cyflogadwyedd a dod o hyd i waith.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<p>Darparu rhaglen hyfforddi hawliau lles i gefnogi staff a sefydliadau partner Dinas a Sir Abertawe i gyd-drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl y broses diwygio lles</p>	<p>2017</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae gan y Tîm Hawliau Les raglen hyfforddi hirsefydlog sy'n ymdrin â'r ystod o fudd-daliadau lles. Mae rhaglen newydd ar gyfer 2017 yn cael ei dosbarthu ar hyn o bryd. Cododd y Tîm Hawliau Lles £2,830 trwy werthu lleoedd ar eu cyrsiau. Rydym wedi arbed £25,670 i'r awdurdod lleol a sefydliadau partner eraill trwy ddarparu hyfforddiant hawliau lles y byddent wedi gorfod ei brynu eu hunain fel arall.</p>
<b>Cyllid a Chyflwyno</b>		
<p>Darparu cefnogaeth i ymgeiswyr Credyd Cynhwysol (CC) trwy ddarparu dau barth hunanwasanaeth digidol yn y Ganolfan Gyswilt, gan fod CC yn gais ar-lein. Bydd ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu cefnogaeth ddigidol, cymorth wrth wneud ceisiadau ar-lein ac yn darparu cyngor ar CC a gwybodaeth amdano i gwsmeriaid. Mae gwasanaeth cefnogaeth cyllidebu personol wedi'i drefnu i gwsmeriaid CC priodol</p>	<p>Aseu effeithiolrwydd bob chwe mis</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae cymorth ar gael ond ni chofnodwyd unrhyw achosion ar gyfer y cyfnod hwnnw gan nad oedd unrhyw alw ar y pryd dan y gwasanaeth byw oherwydd meini prawf mynedfa llym yr AGPh i dderbyn CC. Bydd Abertawe'n cyflwyno'r gwasanaeth CC llawn ym mis Rhagfyr 2017.</p> <p>Mae 98 o achosion wedi cael eu hatgyfeirio o'r AGPh i dderbyn Cymorth Cyllidebu Personol (CCP) am y cyfnod hwn. Mae gan yr awdurdod 72 awr i gysylltu â'r cleient yn ôl anghenion AGPh a rhaid gwneud tri chynnig i geisio cysylltu â'r cleient yn ystod y terfyn amser hwn. Cwblhaodd 59 o'r cynigwyr y broses CCP ond methodd 39 ymrwymo i'r broses naill ai am eu bod wedi dewis peidio derbyn y cynnig o gymorth (gan amlaf yn nodi nad oedd angen cymorth arnynt), neu heb ymateb i'r tri chais i gysylltu â hwy, neu nad oeddent wedi mynd i'r cyfarfod a drefnwyd. Darperir adborth ar bob cais i'r AGPh sy'n ei atgyfeirio i'r ymgynghorydd swyddi er mwyn iddo gymryd camau dilynol â'r cleient. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		awgrymu bod y canrannau ynglŷn â CCP yn debyg i brofiadau awdurdodau lleol eraill Cymru.
Darparu llinell gyngor a chyfeiriad e-bost penodol i gynnig cyngor lles i gwsmeriaid, sy'n cynnwys cyngor ar sut mae hawlio Budd-dal Tai, Taliad Tai Dewisol Gostyngiad Treth y Cyngor a help a chyngor ar newidiadau diwygio lles a budd-daliadau lles eraill	Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Mae'r Tîm Cyngor Budd-daliadau wedi derbyn 2,588 o alwadau ffôn a 405 o e-byst yn ystod y cyfnod hwn.  Maent wedi helpu 619 o bobl i gael BT/GTC gwerth £285,446 am y flwyddyn
Cefnogi'n rhagweithiol holl achosion Budd-dal Tai y mae'r terfyn budd-dal yn effeithio arnynt	Parhaus a bydd gweithgarwch yn cynyddu pan fydd gwerth y terfyn yn disgyn	<b>Ar waith:</b> Cynyddodd ein gwaith achosion ynglŷn â'r terfyn budd-dal ym mis Tachwedd 2016 a chynigiwyd cymorth i gwsmeriaid. Rhoddwyd cyfrifiadau i 240 o gwsmeriaid y mae disgwyl y bydd terfyn pellach yn cael ei roi arnynt neu derfyn am y tro cyntaf. Rhoddwyd cyngor ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
Gweithio gyda sefydliadau eraill megis Age Cymru, Canolfan Gofalwyr Abertawe a thimau ymweld y DWP i ddarparu cyngor ac arweiniad ar fudd-daliadau, Gostyngiad Treth y Cyngor a chynlluniau gostyngiad Treth y Cyngor	Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Oherwydd adnoddau cyfyngedig, mae'r gwaith rhagweithiol wedi dod i ben ond mae perthnasoedd da'n parhau. Mae llinell flaenoriaeth ar gael i siarad â'r Tîm Cyngor Budd-daliadau sy'n gallu cynorthwyo'r sefydliadau hyn gyda BT/GTC ac ymholiadau eraill i gael cyngor ar les. Rydym yn parhau i allu gwneud atgyfeiriadau i'r AGPh a chyfeirio pobl i sefydliadau perthnasol.
Gwaith gyda banciau bwyd megis Banc Bwyd Abertawe (y cyngor yw'r asiant dosbarthu mwyaf), Banc Bwyd Eastside a Banc Bwyd Mosg Abertawe. Ar gyfer pob banc bwyd, byddwn yn gweithredu fel asiant	Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Mae 198 o barseli/talebau bwyd wedi cael eu dosbarthu am y cyfnod ar gyfer y 3 banc bwyd gwahanol



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
cyfeirio gan ddarparu cyngor ar fudd-daliadau lles i'r banciau bwyd i gynorthwyo cwsmeriaid mewn argyfwng bwyd		
Darparu cyngor i rieni ac ysgolion ar ymholiadau ynghylch Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Gwisg Ysgol	Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Ymatebodd y Tîm Cyngor Budd-daliadau i 1,219 o e-byst a 313 o alwadau am y pwnc hwn. Yn anffodus, nid yw nifer y galwadau i'r llinellau gwasanaeth cwsmeriaid budd-dal ynglŷn â Phrydau Ysgol am Ddim yn cael eu monitro.
Darparu cyngor a gwybodaeth i gwsmeriaid am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael, e.e. Gostyngiad Cartrefi Cynnes, Cymorth Dŵr Cymru, Talebau Cychwyn Iach, Cronfa Cymorth Dewisol, Pasbort i Hamdden, etc.	Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Ni chaiff data am y camau gweithredu hyn ei gofnodi ar wahân oherwydd bod y cyngor hwn yn cael ei roi i bob galwr gan y Tîm Cyngor Budd-daliadau wrth ystyried mwyafu incwm.

### Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghoriad a chynnwys yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth

#### Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Adeiladu cymunedau cynaliadwy

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid</b>		
Rhoi Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys gorfforaethol newydd ar waith, gan gynnwys parhau â rhaglen ymgynghori gorfforaethol  Sicrhau bod trefniadau clir i sefydlu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael eu	2018	<b>Ar waith:</b> Ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r cyngor yn ystyried symud tuag at ymagwedd fwy cydlynol yn y maes hwn. Mae angen i'r Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys adlewyrchu hyn, felly bydd gwaith yn dechrau'n hwyrach yn 2017 er mwyn dilyn gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
cynnwys yn y strategaeth newydd		<p>gyda CLILC.</p> <p>O ran ymgynghori a chynnwys, mae'r cyngor wedi bod yn cynnal rhaglen drawsnewid anferthol fel rhan o'i agenda Abertawe Gynaliadwy, ac mae ymgynghori'n rhan bwysig o hyn. Mae gofynion ymgynghori ar gyfer pob adolygiad comisiynu a ategir gan y Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys bresennol a'r Cydlynnydd Ymgynghori Corfforaethol.</p>
<p>Parhau â rhaglen gynnwys cydraddoldeb gyda fforymau a grwpiau allweddol gan gynnwys: Grŵp Cydgysylltu Anableddau, Fforwm Pobl Ddu a Lleihafrioedd Ethnig, Fforwm LGBT a Rhwydwaith 50+</p> <p>Parhau i gefnogi digwyddiadau cydraddoldeb gyda'r fforymau a'r grwpiau hyn</p> <p>Gwella cynnwys grwpiau anableddau lleol trwy'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau (GCA)</p>	Asesu effeithiolrwydd yn flynyddol	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r rhaglen wedi parhau yn unol â'r adroddiad naratif (5.4) a diweddariad 50+ penodol isod.</p> <p>Darperir cymorth ar gyfer e.e. Swansea Sparkle, seminar Swansea Sparkle, Diwrnod Pobl Hŷn y DU, ymgyrch genedlaethol yr AGPh (pwyslais ar yr isafswm cyflog), Our Abertawe, sesiwn y Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol (pwyslais ar rwydweithiau staff).</p> <p>Cafwyd cynnydd o ran cynnwys trwy DLG yn unol â'r adroddiad naratif (5.4) gyda chais i swyddogion cydraddoldeb fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Mynediad Chwarae a'r Rhwydwaith Hawliau Plant</p>
Adolygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) Dinas a Sir Abertawe a Chynllun Gweithredu Bwrdd Dinas Iach, Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2015-2019	Bob blwyddyn	<p><b>Ar waith:</b> Adolygwyd y cynllun ym mis Gorffennaf 2016 a chytunwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn gweithdy amlasiantaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Rhwydwaith 50+.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Cynnwys gwaith gyda Rhwydwaith 50+ Abertawe a mecanweithiau/dulliau cynnwys perthnasol eraill gyda phobl hŷn yn yr adolygiad blynyddol		Mae'r Rhwydwaith 50+ wedi cael ei gynnwys ym mhob trafodaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod ac wrth gynllunio ar gyfer prosiectau penodol. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle holwyd aelodau'r fforwm am ba strwythur oedd yn well ganddynt ar gyfer gweithgareddau'r rhwydwaith – digwyddiadau fforwm ar thema oedd y dewis mwyaf poblogaidd.
Trefnu digwyddiad i gynnwys cyfarfod blynyddol Rhwydwaith 50+ Abertawe a digwyddiad cyhoeddus i ddathlu Diwrnod Pobl Hŷn yn y DU	Bob blwyddyn	<b>Ar waith:</b> Cynhaliwyd Diwrnod Pobl Hŷn y DU ym mis Hydref 2016 a chynhelir y Digwyddiad Heneiddio'n Dda ym mis Ebrill 2017. Bydd y Digwyddiad Heneiddio'n Dda yn canolbwyntio ar gynnwys dinasyddion.
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Sicrhau bod y Sgwrs Fawr yn parhau i gwmpasu amrywiaeth o fecanweithiau sy'n ceisio hwyluso'r cyfranogiad helaethaf posibl gan yr holl blant a phobl ifanc	2017	<b>Ar waith:</b> Cynhelir Sgyrsiau Mawr a Fforymau Llais y Disgybl bob chwe wythnos ac mae strwythur fforwm anghenion ar wahân wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal. Yn 2016/17 cynhaliwyd yr uwch-arolwg PPhI mewn ysgolion ac ymatebodd 3,128 o bobl ifanc iddo. Yn gyffredinol cymerodd 5,381 o blant a phobl ifanc ran mewn dulliau Sgwrs Fawr y llynedd
Parhau ag amrywiaeth o ymgynghoriadau cynhwysol penodol i chwarae gyda grwpiau ac unigolion wedi'u nodi. Ymgymryd ag ymgynghoriad penodol gyda grwpiau allweddol â nodweddion gwarchodedig fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd	2019	<b>Ar waith:</b> Dyma'r flwyddyn gyntaf y rhoddwyd hyn ar waith ac felly ni chafwyd fawr ymgynghori ar ddigonolrwydd, ond ymgysylltwyd â grwpiau a nodwyd trwy gydol y flwyddyn wrth ymateb i ddiffygion a nodwyd yn flaenorol.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Chwarae 2016/19		
Ymgysylltu â chymunedau Teithwyr trwy chwarae teithiol Chwarae ar Olwynion	2019 – cyfrannu at yr Archwiliad Digonolrwydd Chwarae	<b>Ar waith:</b> Bu'r prosiect Chwarae ar Olwynion yn cyflwyno sesiynau rheolaidd gyda chymunedau Teithwyr yn ystod y flwyddyn.
Sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl leol, gan gynnwys aelodau mwyaf ymylol y gymuned, yn cael eu cynnwys yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Bydd gweithgareddau'n cynnwys rhannu gwybodaeth, cyfranogiad gweithredol, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng unigolion a sefydliadau, a grymuso pobl leol	Mawrth 2017	<b>Wedi'i gwblhau:</b> Roedd rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi sefydlu Tîm Cynnwys a Chefnogi'r Gymuned er mwyn sicrhau bod aelodau mwyaf difreintiedig y gymuned yn gallu derbyn gwasanaethau a chefnogaeth yn lleol ac i rymuso pobl a chymunedau i fod yn fwy gwydn. Mae rôl ac adnoddau i rymuso cymunedau yn y dyfodol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru.
Sicrhau bod agweddau perthnasol y Cynllun Heneiddio'n Dda wedi'u sefydlu yn yr amcanion cydraddoldeb hyn o 2017	2017	<b>Ar waith:</b> Yn sgîl ailstrwythuro Tlodi a'i Atal byddwn yn ystyried sut gallwn ni wreiddio ymagwedd at Hawliau Pobl Hŷn yn y PEY a dewis amcanion penodol i'w datblygu trwy gydol 2017-18.
<b>Tai a Diogelu'r Cyhoedd</b>		
Rhoi Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol (SCTLI) 2015-18 wedi'i diweddarau ar waith	2018 – wedi'i hadolygu'n chwarterol gyda'r Grŵp Llywio Tenantiaid	<b>Wedi'i chwblhau:</b> SCTLI wedi'i diweddarau ar waith ar gyfer 2015-18 ar ôl ymgynghori â thenantiaid
Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cynhwysiad Ieuenctid, i annog cyfranogiad pobl ifanc mewn materion tai (i geisio sefydlu grŵp ar gyfer pobl ifanc yn unig a'u	Cynnydd blynyddol ym mis Rhagfyr bob blwyddyn	<b>Ar waith:</b> Mae cyfarfodydd Sgwrs Fawr am Dai yn parhau; roedd yr un diwethaf ym mis Medi 2016. Roedd hon yn canolbwyntio ar reoli'ch materion cartref a digartrefedd eich hunain.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
hannog i ymuno â grwpiau eraill)		I hyrwyddo'r grŵp ymhlith pobl ifanc, mae hysbysebion wedi cael eu cynnwys yn Nhŷ Agored ac ar y sgriniau teledu mewn swyddfeydd tai rhanbarthol. Bydd hyn yn parhau.
Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd: – Priodasau un rhyw i'r seremoni priodas sifil Y broses gyfreithiol sy'n galluogi paru sydd wedi ffurfio partneriaeth sifil i'w thro'i'n briodas	Caiff ei monitro'n fisol	<b>Ar waith:</b> Ceir cyngor penodol ar wefan y cyngor. Gellir darparu rhagor o wybodaeth dros y ffôn neu drwy apwyntiad yn y Ganolfan Ddinesig.
<b>Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol</b>		
Adolygu'r ymgynghoriad cyfredol â grwpiau mynediad lleol i wella mynediad ffisegol i adeiladau a gwasanaethau	Yn parhau gydag adolygiadau blynyddol	<b>Ar waith:</b> Mae prif gyswllt grwpiau anabledd lleol wedi ymddeol yn ddiweddar. Ar ôl derbyn cadarnhad o ran pwy fydd yn ymgymryd â'r rôl hon nesaf, caiff y manylion eu rhannu â'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau a Fforwm Anabledd Abertawe.
<b>Adfywio Economaidd a Chynllunio</b>		
Canolbwyntio ar drefniadau a dulliau ymgysylltu gyda grwpiau cydraddoldeb i sicrhau cynhwysiad a helpu i wella cyflwyno rhaglenni gwaith cyfredol	Yn parhau gydag adolygiadau blynyddol	<b>Ar waith:</b> Mae proses ymgysylltu lawn ar waith fel rhan o gynllun adfywio defnydd cymysg Abertawe Ganolog.
<b>Gwasanaethau Diwylliannol</b>		
Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau diwylliannol a nodi rhwystrau i gyfranogiad trwy ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb allweddol	2018 - a pharhau i fonitro cynnydd	<b>Ar waith:</b> Rydym yn rhoi'r newyddion diweddaraf am Ddinas Diwylliant i sicrhau bod grwpiau cydraddoldeb allweddol yn ymwybodol o gynnydd rhwng nawr a'r cyhoeddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2017. Dyma gyfle i'r grwpiau ymwneud â'r ymgyrch.

**Amcan Cydraddoldeb 12 – Gwaith ar fentrau iechyd a chwaraeon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'n cymunedau  
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Adeiladu cymunedau cynaliadwy**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>Tai a Diogelu'r Cyhoedd</b>		
Cyflwyno Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio	Yn unol â'r dyddiadau cau yn y cynllun gweithredu	<p><b>Ar waith:</b> Mae Cynllun Gweithredu ar Dybaco 2014-17 yn cael ei gynnal. Mae'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw eleni yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwybyddiaeth Rhoi'r Gorau i Smygu</li> <li>• Amddiffyn plant rhag niwed ar safleoedd manwerthu</li> <li>• Camau gorfodi ar gyfer tybaco ffug a thybaco na thalwyd toll arno.</li> <li>• Gwaith diogelwch i ymchwilio i gynnyrch amnewidyn tybaco peryglus.</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Diwylliannol</b>		
Sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb perthnasol wrth adolygu amserlenni canolfannau hamdden (a lleoliadau eraill)	Cyfredol	<p><b>Ar waith:</b> Pris gostyngol ar gyfer pob gweithgaredd corfforol, megis dosbarthiadau ymarfer corff, defnyddio ystafell ffitrwydd a sesiynau gymnasteg plant.</p> <p>Cyfleoedd chwaraeon i fenywod a merched trwy Gynghrair Bêl-rwyd Menywod a Merched Gorllewin Cymru; maent hefyd yn cynnwys cyfleoedd addysg/dysgu misol trwy gyrsiau hyfforddi a dyfarnu ar y safle.</p> <p>Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Dinas Abertawe wedi cynnal sesiynau pêl-droed ar nos Wener sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddenu niferoedd uchel o bobl ifanc o</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>ardal Bonymaen.</p> <p>Cynhaliodd Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru weithgareddau am ddim i blant yn y gymuned leol</p> <p>Sesiynau nofio i fenywod yn unig</p> <p>Nifer o weithgareddau i oedolion hŷn</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar 'lyfryn cynhwysiad' o'r enw 'FfitlBawb'. Y syniad yw cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pobl anabl a'u teuluoedd/gofalwyr o fanteision ymarfer corff rheolaidd, ffyrdd o fyw a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yng Nghanolfan Hamdden Penlan.</p> <p>Mae Carly Smith – ein Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru – wedi trefnu hyfforddiant am Anhwylder y Sbectwm Awtistig i staff. Cynhelir y sesiwn gyntaf ym mis Mehefin.</p> <p>Mae Ysgol Pen-y-bryn bellach yn llogi Canolfan Hamdden Penlan ar gyfer gwersi nofio. O fis Medi bydd yr ysgol hefyd yn llogi'r stiwdio, y neuadd chwaraeon a'r ystafell ffitrwydd ar gyfer gweithgareddau â hyfforddwr.</p>
Datblygu Rhaglen Dyfodol Cynhwysol sy'n gweithio ar raglenni, digwyddiadau ac etifeddiaeth chwaraeon anabledd.	2018 - a pharhau i fonitro cynnydd	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae prosiect Dyfodol Cynhwysol yn Abertawe wedi cael ei integreiddio i'n prosiectau gwirfoddoli craidd, yn enwedig y Cynllun Llysgenhadon Ifanc. Mae'r Tîm Pobl Ifanc Actif (PIA)</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cynhwysol bob blwyddyn ac mae'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd yn wreiddiol trwy raglen Dyfodol Cynhwysol yn rhan allweddol o'r broses gyflwyno hon.</p> <p>Rydym o'r farn nad oes angen rhaglen benodol ar gyfer gwirfoddolwyr mewn chwaraeon anabledd mwyach gan fod ein rhaglenni craidd bellach yn barod i gynnal gweithgareddau cwbl gynhwysol. Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon (a arweinir gan ein Swyddog Chwaraeon Anabledd) yn gymwys i weithio gyda gwirfoddolwyr anabl (gan gynnwys eu hyfforddi a'u lleoli) fel rhan o'u gweithgareddau.</p>
<p>Parhau i gyflwyno Insport i dargedu partneriaid a sefydliadau gwirfoddol i annog integreiddio pobl anabl i glybiau chwaraeon prif ffrwd trwy lwybrau'r Corff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol</p>	<p>2018 - a pharhau i fonitro cynnydd</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae achrediad Insport ar gyfer clybiau a sefydliadau'n parhau'n darged allweddol o ran chwaraeon anabledd yn Abertawe. Yn y 2 flynedd ddiwethaf mae 12 o glybiau wedi cael eu hachredu neu mae eu hachrediad wedi gwella i lefel uwch.</p> <p>Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chwaraeon Anabledd Cymru a dethol cyrff llywodraethu cenedlaethol i ddewis clybiau lleol sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gyfranogiad pobl anabl mewn chwaraeon. Rydym wedi gweithio hefyd gydag ymddiriedolaethau cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a'r Gweilch fel y gallant gael eu hachredu a hefyd rannu arfer da.</p> <p>Rydym hefyd yn gweithio tuag at y safon achrediad nesaf i'r cyngor ei hun a gaiff ei chyflawni yn ystod 2017/18.</p>



Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol)	2018 – a pharhau i fonitro cynnydd	<p><b>Ar waith:</b> Mae hyn yn parhau i fod yn nod sylfaenol ein rhaglen Pobl Ifanc Actif.</p> <p>Nid yw'r dangosydd perfformiad a ddefnyddir yn genedlaethol ar gael eleni oherwydd mai bob 2 flynedd yn unig y cynhelir Arolwg Chwaraeon Ysgolion Chwaraeon Cymru.</p> <p>Cafodd y Tîm PIA ei ailstrwythuro'r llynedd ar ôl mân ostyngiad o ran yr arian grant. Mae ffiniau daearyddol clystyrau ysgolion wedi cael eu newid i wneud amser swyddogion yn fwy effeithiol a phenodol lle mae'r angen mwyaf.</p> <p>Mae dull cyflwyno'r tîm yn parhau'n hyblyg a gellir newid adnoddau i fodloni gofynion a chyfleoedd wrth iddynt godi; hefyd gellir darparu cymorth ychwanegol mewn ardaloedd lle mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn llai na'r cyfartaledd.</p> <p>Mae gwaith y rhaglen allgyrsiol PIA yn gysylltiedig â darpariaeth gymunedol bresennol trwy glybiau, darparwyr hamdden a sefydliadau eraill. Y nod yw cynorthwyo cynladwyedd ac annog cyfranogiad tymor hir ymhlith pobl ifanc ar ôl gadael yr ysgol.</p>
Parhau i gymryd camau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhellach o ran cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol	2018 – a pharhau i fonitro cynnydd	<p><b>Ar waith:</b> Er bod y bwlch rhwng y rhywiau ar draws yr awdurdod wedi lleihau, dengys yr arolwg chwaraeon ysgolion fod problem o hyd gyda chyfranogiad mewn cymunedau mwy difreintiedig.</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p>Rydym yn parhau i ddatblygu sesiynau i ferched yn unig mewn ysgolion ac i weithio gyda chwaraeon a chlybiau sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu cyfranogiad merched. Cafwyd cryn lwyddiant nodedig o ran cyfranogiad mewn rygbi gan fod gweithgareddau clybiau cymunedol wedi cynyddu dros y 2 flynedd ddiwethaf.</p> <p>Rydym hefyd yn cynnal y rhaglen "Ni Ferched" sy'n fenter genedlaethol ar gyfer merched mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd trwy newid y dull cyflwyno a'r math o weithgaredd sydd ar gynnig. Ar hyn o bryd ceir amserlen "merched yn gyntaf" sy'n cynnal gweithgareddau mewn cyn-ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn ogystal â gweithgareddau gwrsyll gwyliau ysgol yn ein canolfannau hamdden cymunedol.</p>

**Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth  
Dolen Gwerth Corfforaethol: Ffocws ar bobl**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<b>ADNODDAU DYNOL A DATBLYGIAD SEFYDLIADOL</b>		
Adolygu deunydd hyfforddi'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn cwmpasu meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg, e.e. cymunedau sy'n ystyried pobl hŷn, pobl â dementia, a CCUHP.	Adolygiadau bob chwe mis	<b>Ar waith:</b> Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gwblhau'n rheolaidd ac mae adnoddau hyfforddi'n parhau i gael eu monitro a'u haddasu yn ôl yr angen
Sicrhau bod gan yr holl staff ysgol ac athrawon fynediad i hyfforddiant cynyddu	Mynediad ar waith ar hyn o	<b>Ar waith:</b> Gan nad yw'r galw wedi bod yn sylweddol hyd yn hyn, mae

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
ymwybyddiaeth priodol sy'n ymwneud â chydoddoldeb	bryd. Cynllunio dulliau hyrwyddo gyda'r Prif Swyddog Addysg yn 2016 a monitro'r galw bob chwe mis	darpariaeth fewnol wedi bod yn ddigonol i fodloni'r galw am hyfforddiant.
Datblygu cyfres o gyrsiau e-ddysgu ar sail modiwlau a fydd yn cynnwys meysydd pwnc megis dementia, troseddau casineb, masnachu plant etc.	Rhagfyr 2016	<p><b>Wedi'i gwblhau:</b> Mae'r cyrsiau e-ddysgu canlynol wedi cael eu hychwanegu at ein portffolio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwybyddiaeth o Ddementia.</li> <li>• Ymwybyddiaeth o Drais Domestig</li> <li>• Ymwybyddiaeth o Drawsrywiaeth</li> <li>• Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</li> </ul> <p>Yn ogystal â hyn: Mae cwrs hyfforddi troseddau casineb wedi cael ei ddatblygu a'i dreialu; mae'n aros i gael ei ddiwygio ar hyn o bryd</p> <p>Mae ein cwrs e-ddysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i gael ei fonitro am briodoldeb</p>
Adolygu'r broses sefydlu corfforaethol yn rheolaidd i sicrhau bod hyfforddiant yn gyfoes ac yn cynnwys meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg, e.e. cymunedau sy'n ystyried pobl hŷn, pobl â dementia, a CCUHP.	Adolygiadau bob chwe mis	<p><b>Ar waith:</b> Cynhelir adolygiadau'n rheolaidd i sicrhau bod y broses sefydlu corfforaethol yn berthnasol ac yn addas i'r diben</p>
Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob	Bob blwyddyn	<p><b>Ar waith:</b> Caiff presenoldeb ar hyfforddiant corfforaethol ei gofnodi a</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
cwrs hyfforddi corfforaethol yn gywir		gellir adrodd amdano trwy'r system rheoli dysgu (SRhD) ar draws y cyngor
<b>Tlodi a'i Atal</b>		
Cyflwyno lefelau hyfforddiant priodol ac addas ar CCUHP a hawliau plant	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae cynllun hyfforddi CCUHP wedi cael ei ddatblygu, gan gynnig amrywiaeth o ddulliau i staff, plant, pobl ifanc, rhieni a rhanddeiliaid eraill achub ar gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â hawliau plant.</p> <p>Y llynedd ymgwymerodd 225 o bobl â datblygiad gweithlu CCUHP. Mae hyn yn cynnwys sesiynau wedi'u teilwra:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ar gyfer penderfynwyr uwch yn y blynyddoedd cynnar</li> <li>• ar draws adrannau'r cyngor i wreiddio hawliau plant yn arfer pob dydd</li> </ul>
Aiddosbarthu'r arolwg staff a lenwyd gyntaf yn 2014 i'r holl staff a chynghorwyr er mwyn mesur gwybodaeth am hawliau plant ac CCUHP a dealltwriaeth ohonynt	2016	<p><b>Wedi'i gwblhau:</b> Ar ôl arolwg gwaelodlin cychwynnol, cynhaliwyd arolwg dilynol i fesur y ddealltwriaeth o hawliau plant. Roedd hwn yn dangos gwelliant mewn dealltwriaeth o CCUHP a gwybodaeth amdano, a nododd feysydd i'w datblygu</p>
Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o geiswyr lloches a ffoaduriaid i alluogi staff i ddeall y materion sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chroesawgar	2017	<p><b>Ar waith:</b> Mae 5 sesiwn hyfforddi wedi cael eu cynnal yn fewnol – gan hyfforddi bron 100 o bobl.</p>
Datblygu a lledaenu gwybodaeth am gymunedau ymfudwyr Abertawe i staff ac aelodau etholedig	2017	<p><b>Ar waith:</b> Rydym wedi parhau i gynnal ymwybyddiaeth staff ac aelodau etholedig o unrhyw ddatblygiadau/wybodaeth sylweddol ynglŷn</p>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		â chymunedau ymfudwyr.
Cyflwyno digwyddiadau ymwybyddiaeth a hyfforddiant Gweithdy Cynyddu Ymwybyddiaeth o Atal (WRAP) ar gyfer staff rheng flaen ac aelodau etholedig priodol	2020 – gyda chynllun gweithredu wedi'i adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol	<b>Ar waith:</b> Eleni: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynwyd 8 lleoliad Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Cyflwynwyd sesiwn ar gyfer Grŵp Colegau CCNPT</li> <li>• Cyflwynwyd sesiwn ar gyfer y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd</b>		
Rhoi'r newyddion diweddaraf bob 6 mis ar wefan gyfreithiol o ran cyfraith achos sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb	Bob 6 mis	<b>Ar waith:</b> Rhoddwyd 3 diweddariad ar y fewnwyd gyfreithiol o ran cyfraith achosion ynglŷn â materion cydraddoldeb/adolygiad cyfreithiol/ymgyngori.
<b>Pob adran</b>		
Parhau i ddarparu a hyrwyddo hyfforddiant/gwybodaeth cydraddoldeb sy'n benodol i wasanaeth lle y bo angen	Parhaus trwy adroddiadau blynyddol o'r newyddion diweddaraf	<b>Ar waith:</b> Mae enghreifftiau o'r hyn a ddarparwyd eleni'n cynnwys: <u>Tai:</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sesiynau ymwybyddiaeth o ddementia sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i staff Tai a Diogelu'r Cyhoedd.</li> <li>• Mae proses sefydlu'r Adran Tai yn ymdrin â materion cydraddoldeb a'r Gymraeg.</li> <li>• Cyflwynwyd hyfforddiant diogelu plant/oedolion yn 2016.</li> <li>• Mae gwasanaethau cyfreithiol wedi hyfforddi swyddogion cymdogaeth am faterion cydraddoldeb y mae angen eu hystyried gan staff swyddfeydd tai rhanbarthol a'r materion a'r penderfyniadau maent yn eu hwynebu wrth benderfynu cymryd camau gweithredu yn erbyn tenantiaid.</li> </ul>

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
		<p><u>Gwasanaethau Diwylliannol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhan o hyfforddiant gorfodol i staff llyfrgelloedd</li> <li>• Aeth Swyddog Mynediad Cymunedol Amgueddfa Abertawe ar gwrs hyfforddiant am faterion trawsrywiol a gyflwynwyd gan Glybiau Ieuencid Cymru</li> </ul> <p>Mae'r <u>Gwasanaethau i Oedolion</u> wedi datblygu Dadansoddiad Anghenion Addysgu a fydd yn cyfeirio Cynllun Datblygu Gweithlu Gwasanaethau i Oedolion yn Unig – bydd hyfforddiant cydraddoldeb yn rhan o hwn.</p> <p><u>GWASANAETHAU ADEILADAU AC EIDDO CORFFORAETHOL:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynir hyfforddiant ar ddiogelu gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro ac mae pob aelod presennol o staff wedi cael ei hyfforddi ar y pwnc hwn. Pan fyddwn yn recriwtio unrhyw aelodau newydd o staff, maent yn mynd ar y cwrs hwn fel rhan o'r broses sefydlu.</li> <li>• Mae sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia'n cael eu cyflwyno i bob aelod o staff GAEC gan uwch-reolwr.</li> <li>• Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi cael ei gyflwyno i bob rheolwr. Bydd pob aelod o staff sydd â mynediad i gyfrifiadur yn cwblhau'r cwrs e-ddysgu a chaiff sgysiau blwch offer eu cyflwyno i staff nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa.</li> </ul>

**Amcan Cydraddoldeb 14 – Cydymffurfio â'r rheoliadau caffael ac asesiad effaith a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2017
<p>Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn rhoi sylw dyladwy i a fyddai'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ar gyfer y meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw i helpu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol</li> <li>• pennu amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol</li> </ul>	<p>Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae'n rhaid i holl weithgarwch caffael y cyngor roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r holl weithgarwch caffael â budd trawsffiniol posibl gydymffurfio ag egwyddorion Cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd sy'n sicrhau tegwch a thryloywder.</p>
<p>Parhau i weithredu'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar draws y sefydliad</p>	<p>Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r broses hon yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer testun pob adroddiad corfforaethol sy'n cael ei gyflwyno i Frifio Corfforaethol, y Cabinet a'r cyngor (yn ogystal â phwyllgorau eraill). Mae hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer y broses o bennu cyllidebau, prosiectau sylweddol ac adolygiadau comisiynu.</p>
<p>Parhau i sicrhau ansawdd sgriniadau ac adroddiadau AEC, gan roi adborth i adrannau</p>	<p>Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis</p>	<p><b>Ar waith:</b> Cefnogir swyddogion gan y Tîm Mynediad i Wasanaethau trwy gyfarfodydd, adborth anffurfiol cychwynnol a sesiynau tîm pwrpasol ar gais. Mae'r broses sicrwydd ansawdd AEC yn cynnwys swyddogion ag arbenigedd mewn cydraddoldeb, hawliau plant, tlodi, y Gymraeg, ymgynghori ac ymgysylltu.</p>

## Atodiad 2

### Proffil Gweithlu Dinas a Sir Abertawe


Mae'r system a ddefnyddir i gasglu data hyfforddiant a chyflogaeth yn parhau i gael ei diweddarau i gasglu mwy o wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r data cydraddoldeb sydd ar gael yn gyflawn oherwydd nad oes rhaid i weithwyr ddarparu'r wybodaeth hon; mae gwaith yn parhau i annog gweithwyr i ddiweddarau eu manylion.

### Proffil Gweithlu Rhyw (swyddi)

(gan gynnwys staff ysgolion cysylltiedig)


Gender	Employment Category	Total
Female	Permanent - Full Time	1244
	Permanent - Job Share	88
	Permanent - Part Time	3063
	Temporary - Full Time	289
	Temporary - Job Share	7
	Temporary - Part Time	2931
	Temporary - Seasonal	5
<b>Female Total</b>		<b>7627</b>
Male	Permanent - Full Time	1964
	Permanent - Job Share	5
	Permanent - Part Time	419
	Temporary - Full Time	203
	Temporary - Part Time	384
	Temporary - Seasonal	41
<b>Male Total</b>		<b>3016</b>
<b>Grand Total</b>		<b>10643</b>

### Oedran






### Gweithlu Cyffredinol Anabledd (swyddi)




### Gweithlu Cyffredinol Ethnigrwydd (swyddi)




Sylwer: Mae'r rhan fwyaf o weithwyr a nododd eu bod yn aelod o grŵp ethnig yn perthyn i grŵp sy'n rhy fach i'w gofnodi (llai na deg aelod) ac felly cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd dan yr ymadrodd 'grwpiau ethnig eraill')


## Statws Priodasol



## Crefydd neu Gred




## Sexual Orientation Declaration 2017




## Trosolwg o'r Gweithlu Addysgu

Gender	Employment Category	Total
Female	Permanent - Full Time	923
	Permanent - Job Share	10
	Permanent - Part Time	268
	Temporary - Full Time	213
	Temporary - Job Share	1
	Temporary - Part Time	169
Female Total		1584
Male	Permanent - Full Time	400
	Permanent - Part Time	24
	Temporary - Full Time	75
	Temporary - Part Time	27
Male Total		526
Grand Total		2110


## Proffil Oedran



## Ethnigrwydd



## Anabledd



**Gwybodaeth am hyfforddiant a gasglwyd 2016-17**  
 DS: Lle mae'r ffigurau'n llai na 10, mae \* wedi cael ei roi yn eu lle

**Yn ôl rhyw:**

Gwryw	1407
Benyw	2386

**Yn ôl oedran:**

24 ac iau	219
25 – 39	1062
40 – 49	1115
50 – 59	1084
60+	313

**Yn ôl cenedligrwydd:**

Prydeinig (gan gynnwys Cymreig, Albanaidd, Seisnig a Gwyddelig)	1561
Ddim yn Brydeinig	54
Heb ei nodi	2376

**Yn ôl grŵp ethnig:**

Gwyn	650
Arall (gan gynnwys Asiaidd, Du, Tsieineaidd, etc.)	13
Heb ei nodi	3127

**Yn ôl crefydd:**

Cristnogaeth	362
Arall (gan gynnwys Iddewiaeth, Islam, Bwdhaeth etc.)	11
Dim	284
Heb ei nodi	3117

**Yn ôl anabledd:**

Salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd	16
Dim	155
Heb ei nodi	3616

**Yn ôl tueddfryd rhywiol:**

Syth/gwahanrywiol	657
Hoyw/lesbiaidd	15
Deurywiol	*
Arall	*
Heb ei nodi	3108

**Yn ôl hunaniaeth rhywedd:**

Ystyried ei hun yn drawsryweddol	*
Ddim yn ystyried ei hun yn drawsryweddol	690
Heb ei nodi	3099

## **Asesiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2016-2017**

### **Cefndir**

Yn ôl Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru), mae'n ofynnol i'r cyngor fynd i'r afael â ffactorau strwythurol y farchnad lafur sy'n gallu achosi bylchau cyflog rhwng y rhywiau, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghysondeb rhwng cyflogau. Mae bylchau cyflog fesul awr yn syml – mae gwahaniaeth o ran cyfraddau cyflog rhwng dynion a menywod. Mae ychydig yn fwy cymhleth adnabod bylchau cyflog strwythurol – dyma pan mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhywiau ac ar draws strwythurau gradd a phatrymau gwaith (amser llawn a rhan-amser, mathau o gontractau etc).

Gwahoddwyd Dr Alison Parken o Brifysgol Caerdydd gan bennaeth Adnoddau Dynol i gynorthwyo'r arbenigwr cynllunio gweithluoedd i gynnal dadansoddiad o ddata sy'n ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein gweithlu trwy ddefnyddio'r offeryn Dadansoddi Cyflogaeth a Chyflog fesul Rhyw. Mae'r canlynol yn darparu trosolwg o'n canfyddiadau. Gwnaethom adrodd yn ôl am y rhain i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ym mis Mawrth 2017.

### **Prosiect Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2016 – Crynodeb o Ganlyniadau**

Dangosodd y dadansoddiad data fod Abertawe, yn gyffredinol, yn sefydliad sector cyhoeddus gweddol nodweddiadol â gweithlu lle:

- Mae mwyafrif o'r staff yn fenywod
- Mae mwyafrif o'r staff yn gweithio'n rhan-amser (gan amrywio o ychydig oriau'r wythnos hyd at 36 awr yr wythnos – ystyrir bod amser llawn yn 37 awr)
- Mae'r mwyafrif o'r staff ar gyflogau sy'n amrywio o'r Cyflog Byw i'r cyfartaledd cenedlaethol (£25,600 y.fl. yng Nghymru, £27,500 y.fl. yn y DU)
- Yn gyffredinol ceir cydraddoldeb o ran y cyflog awr rhwng dynion a menywod ar draws yr un radd, gydag ychydig o fân amrywiadau wrth esgyn y raddfa (yn gyffredinol mae menywod ar radd awr ychydig yn uwch)
- Yn y graddau uwch mae rhagor o ddynion mewn rolau amser llawn na menywod, ond mae'n bwysig nodi y caiff unrhyw gais am waith rhan-amser ar bob lefel ei ystyried bob amser yn unol ag anghenion busnes, ac na chaiff ei wrthod yn awtomatig oherwydd lefel y swydd.

## Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017-18

<b>Swyddog â Chyfrifoldeb</b>	<b>Cam Gweithredu</b>	<b>Amserlen</b>
<b>Pennaeth AD</b>	Sicrhau bod ein hymrwymiad presennol i adolygiadau 3 mis o weithwyr cyflenwi'n parhau i 2017/18.	Chwarterol
<b>Rheolwr Gwasanaethau Gweithwyr</b>	Byddwn yn sicrhau bod gweithgareddau glanhau data rheolaidd yn cael eu cynnal fel rhan o broses cynnal a chadw systemau (gan gynnwys adolygu swyddi gwag).	I gynllun gwaith data Gwasanaethau Gweithwyr (chwarterol)
<b>Pennaeth AD</b>	Swyddi niferus – yn ôl Dr Parken, dyma faes y mae angen i ni ymchwilio ymhellach iddo yn 2017. Rydym yn cynnig gwaith i lanhau data'r sefydliad a data gweithwyr cyflenwi'n y system cyn i ni fwrw ymlaen â hyn ymhellach.	Diweddaru systemau 2017/18
<b>Pennaeth AD</b>	Caiff canfyddiadau'r Prosiect Cyflog a Graddio 2016 eu cynnwys wrth adolygu polisiau AD sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18.	Adolygiad o Bolisiau AD 2017-18
<b>Pennaeth AD a Rheolwr Gwasanaethau Gweithwyr</b>	Bydd dulliau newydd i adrodd am weithluoedd yn cynnwys y gofynion ar gyfer cynnal Dadansoddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau llawn yn flynyddol.	Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2017-18
<b>Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Gweithluoedd</b>	Bydd PCC yn gosod yr eitem hon fel testun adolygiad blynyddol. Bydd Pennaeth AD yn cyflwyno diweddariad blynyddol am gynnydd o allbynnau'r cynllun gweithredu hwn.	Diweddariad Blynyddol Ebrill 2018.